# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

# POLISI SBWRIEL AC AILGYLCHU

Dyddiad y'i cymeradwywyd gan y Cyngor: 27 Ebrill 2011
Dyddiad gweithredu: 28 Ebrill 2011
Dyddiad yr adolygiad cyntaf: Ebrill 2013
Dyddiad yr adolygiad nesaf: 27 Ebrill 2015
Dyddiad yr adolygiad: 14 Tachwedd 2022

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Tudalen 3** | **Y Sail Resymegol i'r Polisi** |
| **Tudalen 9** | **Polisi Sbwriel ac Ailgylchu** |
| | **Adran 1 – Sbwriel (na ellir ei ailgylchu)** |
| **Tudalen 11** | **Adran 2 – Deunyddiau Ailgylchu Sych** |
| **Tudalen 13** | **Adran 3 – Gwastraff Bwyd** |
| **Tudalen 15** | **Adran 4 – Gwastraff Gardd** |
| **Tudalen 17** | **Adran 5 – Trefniadau Gwasanaeth Cymorth Arbennig** |
| **Tudalen 18** | **Adran 6 – Eiddo sy'n Anodd ei Gyrraedd** |
| **Tudalen 19** | **Adran 7 – Materion Eraill**<br>**Aelwydydd gyda 6 neu fwy o Ddeiliaid**<br>**Eiddo heb Balmant**<br>**Ffyrdd Preifat/Heb eu Mabwysiadu** |
| **Tudalen 22** | **Adran 8 – Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus** |
| **Tudalen 23** | **Adran 9 – Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gardd Swmpus** |
| **Tudalen 24** | **Adran 10 – Biniau/Bocsys/Cynwysyddion Cywasgedig Trwm** |
| **Tudalen 25** | **Adran 11 – Ceisiadau, Canmoliaeth, Sylwadau neu Gwynion am y Gwasanaeth** |
| **Tudalen 26** | **Adran 12 – Materion Amrywiol** |

**Y SAIL RESYMEGOL I'R POLISÏAU CASGLU**

Er mwyn ymdrin â gwastraff Merthyr Tudful mewn modd sy'n gynaliadwy ac yn dilyn Egwyddor yr Hierarchaeth Wastraff, ac er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol a'i newidiadau, roedd angen Polisi arnom i ddarparu cyfeiriad clir tuag at gyrraedd y nodau hynny.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu gwasanaethau ar gyfer casglu gwastraff cartref ar draws y Fwrdeistref Sirol ac yn rhoi cyngor i drigolion ar sut, ble a phryd y dylid cyflwyno eu gwastraff a'u deunyddiau ailgylchu. Mae'r Awdurdod hefyd yn trefnu gwasanaethau sy'n cynnig cymorth arbennig, cynwysyddion ailgylchu ychwanegol a chynwysyddion newydd.

Nid oes yr un ddogfen bolisi sengl yn amlinellu'r gwasanaeth y gall trigolion ei ddisgwyl gan yr Awdurdod, o ran y modd y dylent gyflwyno'u whilfiniau a'u cynwysyddion ar gyfer casgliadau wrth ymyl y ffordd ar gyfer eu deunyddiau ailgylchu, gwastraff gardd a bwyd.

Daeth newid sylweddol i'r drefn casglu gwastraff i rym yn 2011, pan gyflwynwyd casgliadau sbwriel bob pythefnos, darpariaethau ar gyfer biniau mwy o faint lle bo angen, casgliadau â chymorth, a gwaharddiad ar gasglu gwastraff ochr (ac eithrio adeg y Nadolig). Yn sgil hynny, cododd y cyfle i ddwyn ynghyd o fewn un ddogfen glir a syml yr holl arferion a pholisïau presennol sy'n ymwneud â gwastraff/ailgylchu'r cartref.

Yn 2015, gwnaed newidiadau pellach i'r gwasanaethau ymyl-y-ffordd:

disodlwyd y biniau 240 litr safonol â biniau 140 litr ledled y Fwrdeistref Sirol;

newidiwyd y gwasanaeth oedd yn casglu deunyddiau ailgylchu cymysg wrth ymyl y ffordd, i system sy'n gwahanu gwastraff yn y ffynhonnell gan ddefnyddio cerbyd aml-ffrwd i gasglu gwastraff bwyd a deunyddiau sych y gellir eu hailgylchu.

Mae'r rhesymeg y tu ôl i'r polisïau casglu wedi'i nodi isod.

**Sbwriel (Deunyddiau Na Ellir eu Hailgylchu)**

Yn unol â Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, mae gan Awdurdod Lleol ddyletswydd i gasglu gwastraff cartref. Er mwyn hwyluso'r casgliadau hyn, gall yr Awdurdod Lleol naill ai:

- darparu cynwysyddion yn rhad ac am ddim;
- cynnig i ddarparu cynwysyddion ar yr amod bod y deiliaid tai yn talu amdanynt; neu
- ei gwneud hi'n ofynnol i ddeiliaid tai ddarparu cynwysyddion ar eu traul eu hunain.

Gall yr Awdurdod Lleol hefyd fynnu bod deiliad y tŷ yn gosod gwastraff i'w gasglu mewn cynwysyddion penodol o'r math a'r nifer a bennir ar ei gyfer.

Yn gynnar yn y 1990au, penderfynodd CBS Merthyr Tudful symud i gasglu sbwriel cyffredinol mewn cynwysyddion a darparu whilfin 240 litr yn rhad ac am ddim.

Pan gyflwynwyd y biniau, rhoddwyd cyfarwyddyd i ddeiliaid tai bod yn rhaid i'r holl wastraff fod yn y whilfin gyda'r caead ar gau. Roedd yn ofynnol hefyd i breswylwyr gyflwyno eu biniau i'w

casglu erbyn 7.00am ar y diwrnod casglu, symud y bin cyn gynted â phosibl ar ôl ei gasglu a'i storio o fewn ffin eu heiddo lle bynnag y bo'n ymarferol.

Dros y blynyddoedd, daeth yn amlwg bod gan sawl eiddo ar draws y Fwrdeistref Sirol fwy nag 1 whilfin ar gyfer sbwriel a'u bod hefyd yn cyflwyno gwastraff ochr i'w gasglu mewn bagiau du. Roedd yna achosion lle gwelwyd hyd at 6 whilfin mewn un eiddo. Er mwyn annog preswylwyr i ailgylchu/compostio cymaint o'u gwastraff â phosibl, cafodd yr holl finiau dros ben eu symud/casglu gan adael un whilfin ym mhob eiddo cyn ac yn ystod y broses o gyflwyno casgliadau bob pythefnos. Cyfarwyddir y Criwiau Casglu i wagio un bin yn unig fesul eiddo gyda'r caead i lawr, ac yn unol â'r Polisi, ni chaiff unrhyw wastraff ochr ei gasglu.

Os cytunir i gasglu swmp cyfyngedig o wastraff ochr neu gasglu gwastraff ochr am gyfnod cyfyngedig, gallai hynny rwystro'r dasg o gasglu'r maint mwyaf posibl o ddeunyddiau eildro.

Yn ychwanegol, mae gan wastraff ochr y potensial i amharu ar y gwasanaeth trwy orlwytho'r rowndiau i'r pwynt lle na allant gwblhau gwaith y dydd, gan arwain at rai biniau'n cael eu gadael ar y stryd ar ddiwedd y diwrnod gwaith.

Dylid cau pob caead whilfin pan gyflwynir y biniau i'w casglu er mwyn annog y lefel uchaf o ailgylchu. Mae angen atal deiliaid tai rhag pentyrru sbwriel ychwanegol ar ben y biniau (a elwir yn "top-hatting" yn Saesneg) gan achosi i'r caead gael ei wthio ar agor neu mewn achosion eithafol, ei blygu yn syth yn ôl.

Os caniateir i finiau fod ar agor ar lefel gyfyngedig (30 gradd dyweder), byddai hyn yn achosi rhywfaint o orlif, ac yn peri amhendantrwydd wrth i'r gwasanaeth geisio dehongli be'n union y mae 30 gradd yn ei olygu.

Yn ogystal, pan fydd whilfiniau'n cael eu gwagio â'u caeadau i fyny, ceir mwy o orlifiadau wrth i'r biniau wyro ychydig cyn eu gwagio a'u gosod dros gynhwysydd y cerbyd.

Un o fanteision defnyddio whilfiniau yw eu bod yn amddiffyn y gwastraff rhag pla ac ymosodiad gan fermin. Os gadewir caead y bin ar agor, caiff y manteision hynny eu negyddu.

Mae cadw caeadau ar agor hefyd yn cynyddu'r risg o ddifrodi'r biniau ac achosi anaf i weithwyr.

Er mwyn cymell yr holl breswylwyr i ailgylchu cymaint â phosibl a hyrwyddo gwasanaeth casglu glanach, mae angen polisi "caeadau caeedig".

Er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r gwasanaethau ailgylchu sydd ar gael a lleihau maint y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, ar 13 Mawrth 2013 fe gymeradwyodd y Cabinet y dylid lleihau capasiti'r whilfiniau safonol o 240 litr i 140 litr. Y bwriad oedd lleihau'r capasiti'n raddol dros gyfnod o flynyddoedd ar draws y Fwrdeistref Sirol.

**Deunyddiau Ailgylchu Sych**

Oddi ar 2002, defnyddiwyd bocsys 55 litr fel yr opsiwn a ffefrir ar gyfer storio a chasglu deunyddiau ailgylchu sych, gan eu bod yn cynnig lefel dda o gapasiti, yn lleihau'r risg o halogiad, ac yn parhau'n hawdd i'w trin gan y preswylwyr a'r criw casglu.

Er bod yr Awdurdod eisoes wedi buddsoddi'n helaeth mewn bocsys ailgylchu gan ddarparu 2 focs ar gyfer pob eiddo, mae'r deunyddiau ychwanegol a gynhwyswyd yn y casgliadau ers hynny wedi peri bod angen mwy o le storio. Ar gais, gall deiliaid tai dderbyn bocsys ychwanegol at ddibenion ailgylchu.

Y polisi yw casglu unrhyw wastraff ochr y gellir ei ailgylchu. Dylai deunyddiau ailgylchu ychwanegol gael eu cynnwys yn gywir naill ai mewn bocs, bag neu sach sydd wedi'u nodi fel rhai ar gyfer "ailgylchu" a'u gadael wrth ymyl y bocs ailgylchu swyddogol.

Er mwyn annog y lefel uchaf o ailgylchu o bob cartref, mae angen inni ganiatáu i ddeiliaid tai ailgylchu eu holl ddeunyddiau ailgylchadwy hyd yn oed pan fo hyn yn fwy na chyfaint y bocs (bocsys) a gyflenwir. Er mwyn annog deiliaid tai i roi eu holl ddeunyddiau ailgylchu allan, nid ydym am greu unrhyw rwystr allai'u hatal rhag gwneud hynny hyd yr eithaf.

Ni fydd deunyddiau halogedig yn cael eu casglu, h.y. deunyddiau nad ydynt wedi'u nodi a'u casglu trwy wasanaeth ymyl-y-ffordd. Bydd tagiau gwyn yn cael eu gosod ar focsys yn hysbysu deiliaid tai o'r halogiad. Cyfrifoldeb y deiliad tŷ unigol yw cael gwared ar yr halogiad a'i waredu yn y modd cywir.

**Gwastraff Bwyd/Gwastraff Gardd**

Fel rhan o'r newidiadau i wasanaethau yn 2015, cafodd gwastraff bwyd ei gynnwys ar y cerbydau aml-ffrwd sy'n didoli sbwriel wrth ymyl y ffordd.

<u>Gwastraff Bwyd</u>

Darperir cadi cegin 5 litr i ddeiliaid tai ar gyfer storio bwyd y tu mewn, a chynhwysydd clo 23 litr ar gyfer cyflwyno gwastraff bwyd i'w gasglu. At hynny, darperir leinin cadi o startsh y gellir ei gompostio, yn rhad ac am ddim i annog pobl i gymryd rhan.

Os yw'r cynwysyddion gwastraff bwyd wedi'u halogi â deunydd na ellir mo'i gasglu, ni fydd y cynhwysydd yn cael ei wagio. Rhaid i ddeiliad y tŷ wedyn symud y deunydd halogedig a chyflwyno'r cynhwysydd i'w gasglu ar y diwrnod casglu nesaf.

Bydd tagiau gwybodaeth yn cael eu gosod ar focsys yn hysbysu deiliaid tai am yr halogiad. Cyfrifoldeb y deiliad tŷ unigol yw cael gwared ar yr halogiad a'i waredu yn y modd cywir.

<u>Gwastraff Gardd</u>

Darperir 1 sach polypropylen gwyrdd 90 litr i ddeiliaid tai ar gyfer storio a chasglu gwastraff gardd. Mae bagiau ychwanegol ar gael yn dilyn cais ac asesiad.

Ni chesglir gwastraff gardd a adewir ar yr ochr heb ei fagio.

## Trefniadau Gwasanaeth Cymorth Arbennig

Lle na all deiliaid tai roi gwastraff y gellir ac na ellir ei ailgylchu allan i'w gasglu oherwydd rhesymau iechyd neu resymau derbyniol eraill, bydd eu biniau a'u cynwysyddion yn cael eu casglu o fan storio cyfleus/cytunedig, eu gwagio a'u dychwelyd i'r un man storio.

Er mwyn rheoleiddio'r casgliadau â chymorth, bydd yn ofynnol i ddeiliaid tai wneud cais am gasgliad â chymorth a'i adnewyddu trwy ffurflen y mae'n rhaid ei hategu gan lofnod gweithiwr gofal/meddygol proffesiynol.

Mae'n ofynnol i sicrhau bod deiliaid tai nad ydynt, am resymau iechyd neu resymau eraill yn gallu rhoi eu biniau allan i'w casglu, yn dal i allu defnyddio'r gwasanaethau.

Er mwyn rheoli nifer y deiliaid tai sy'n derbyn y gwasanaeth hwn ac atal unrhyw gamddefnydd, bydd angen asesu'r system ymgeisio am gasgliadau â chymorth yn rheolaidd, ac y dylid gwneud hynny drwy holiadur chwe-misol sy'n cynnwys ardystiad gan weithiwr gofal proffesiynol fel nyrs ardal, gweithiwr cymdeithasol, meddyg ac ati.

Mae defnyddio holiadur ardystiedig ddwywaith y flwyddyn yn sicrhau bod unrhyw newid mewn amgylchiadau yn cael ei ymgorffori yn y gwasanaeth cyn gynted â phosibl, gan leihau'r gofynion y mae hyn yn eu gosod ar weithwyr gofal proffesiynol.

Mae casgliadau â chymorth wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer, ac yn ôl yr hyn a brofwyd yn ystod y cyfnod hwn fe deimlir, er bod y gwasanaeth yn gweithio'n dda ar y cyfan, fe gafwyd rhai achosion prin pan gafodd ei gamddefnyddio ac y gellid atal hynny drwy gynnwys llofnod gweithiwr gofal proffesiynol ar y ffurflen gais.

## Eiddo sy'n Anodd ei Gyrraedd

Am nifer o resymau, mae'n bosibl na fydd rhai safleoedd ar draws y Fwrdeistref Sirol yn gallu addasu ar gyfer rhai o'r gwasanaethau gwastraff, neu brofi anawsterau wrth ddelio â nhw.

Dyma rai enghreifftiau o'r safleoedd hyn:

- fflatiau uwchben siopau heb fynediad i storfa ar y llawr gwaelod;
- eiddo na ellir cael mynediad iddo heb gerdded i fyny grisiau;
- eiddo heb unrhyw le yn y ffrynt na'r cefn;
- ffermydd.

At ddibenion casglu, caiff rhai o'r safleoedd hyn eu hadolygu ar sail "anghenion".

**Aelwydydd gyda hyd at 6 o Breswylwyr**

Ym mis Ebrill 2013, cyflwynodd yr Awdurdod whilfiniau 140 litr fel y maint safonol. Os bydd deiliad tŷ yn gofyn am fin i gymryd lle'r un hen neu am fin newydd oherwydd ei fod yn symud tŷ, yna caiff bin 140 litr ei roi iddo. Os yw deiliad y tŷ yn honni na fydd bin 140 litr yn ddigon ar gyfer ei holl sbwriel, yna gellir cynnig bin 240 litr ar ôl iddo gwblhau'r ffurflen gais berthnasol.

Os bydd deiliad y tŷ am whilfin â chapasiti ychwanegol ar gyfer ei gartref, bydd angen iddo wneud cais ysgrifenedig ac amgáu tystiolaeth o'i amgylchiadau. Ar ôl i'r ffurflen gais orffenedig ddod i law, bydd y capasiti ychwanegol priodol yn cael ei awdurdodi yn amodol ar y meini prawf a osodwyd. Codir tâl gweinyddu a danfon os llwydda'r cais am fin â chapasiti ychwanegol. Bydd yr eithriadau hyn yn cael eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn i gadarnhau nad yw amgylchiadau wedi newid.

Bydd Wardeniaid Gwastraff ac Ailgylchu yn cynnal Archwiliadau Gwastraff ar gyfer aelwydydd sy'n cael trafferth gyda'r gwasanaeth. Bydd cyngor a gwybodaeth yn cael eu darparu i sicrhau bod cymaint â phosibl o ailgylchu yn cael ei wneud gan gartrefi o'r fath cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud.

**Aelwydydd gyda 6 neu fwy o Breswylwyr a/neu Amgylchiadau Arbennig**

Gellir cynnig whilfin 240 litr ar gyfer y cartrefi hynny nad ydynt, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn gallu cynnwys eu holl sbwriel o fewn un bin 140 litr bob pythefnos.

Os bydd deiliad y tŷ am whilfin â chapasiti ychwanegol ar gyfer ei gartref, bydd angen iddo wneud cais ysgrifenedig ac amgáu tystiolaeth o'i amgylchiadau. Ar ôl i'r ffurflen gais orffenedig ddod i law, bydd y capasiti ychwanegol priodol yn cael ei awdurdodi yn amodol ar y meini prawf a osodwyd. Bydd yr eithriadau hyn yn cael eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn i gadarnhau nad yw amgylchiadau wedi newid.

Bydd Wardeniaid Gwastraff ac Ailgylchu yn cynnal Archwiliadau Gwastraff ar gyfer cartrefi sy'n cael trafferth gyda'r gwasanaeth. Bydd cyngor a gwybodaeth yn cael eu darparu i sicrhau bod cymaint â phosibl o ailgylchu yn cael ei wneud gan gartrefi o'r fath cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud.

Mae'n bosibl na fydd rhai rhannau o'r gymuned, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, yn gallu cynnwys eu holl wastraff gweddilliol mewn un whilfin 140 litr/240 litr a gesglir bob pythefnos.

Wrth gydnabod bod amgylchiadau eithriadol yn bodoli yn y Fwrdeistref Sirol a thrwy wneud trefniadau arbennig ar gyfer amgylchiadau o'r fath, gall yr Awdurdod ddangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth i anghenion ei breswylwyr.

Er y bydd yn rhaid rheoli lefel yr esemptiadau a ganiateir, byddai peidio â chydnabod amgylchiadau o'r fath yn y gymuned yn mynd yn groes i Bolisïau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Awdurdod.

## Biniau/Bocsys/Cynwysyddion Cywasgedig Trwm

Gall biniau, offer casglu a/neu gyfleusterau trin gwastraff gael eu difrodi os caiff biniau eu llenwi i'r ymylon gan bethau heblaw sbwriel domestig sef gwastraff nad oes gan yr Awdurdod ddyletswydd i'w symud, neu os caiff biniau eu llenwi gan wastraff a gywasgwyd er mwyn cynnwys y maint mwyaf o'u mewn.

Nid yw o fudd i'r casglwr sbwriel na'r preswylydd symud bin neu focs trwm neu gywasgedig.

Dylid atal yr arfer o orlwytho biniau yn y modd hwn er mwyn osgoi methiannau yn sgil difrod i gerbydau neu offer yn y cyfleuster trin gwastraff, a allai arwain at gost ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer atgyweirio ac ymdrin â halogion.

## Halogiad

Gall halogiad achosi problemau difrifol i wasanaethau ailgylchu, gwastraff gardd a bwyd os na chaiff ei wirio. Gall contractwyr CBSMT wrthod llwythi'n llwyr os oes gormod o halogiad ynddynt ac felly, gallai'r holl lwyth gael ei anfon i safleoedd tirlenwi/YoW.

Nid yw'n hawdd i griwiau adael yr halogion hynny a welir mewn cynwysyddion gwastraff ac ailgylchu; felly, mae ein criwiau casglu wedi'u cyfarwyddo i adael unrhyw gynhwysydd ag eitemau na ellir mo'u casglu.

Bydd tagiau gwybodaeth yn cael eu gosod ar y biniau er mwyn hysbysu'r deiliaid tai sy'n troseddu o'r rheswm/rhesymau dros beidio â'u casglu.

Mae Tîm y Gwasanaethau Gwastraff yn gweithio i godi ymwybyddiaeth y deiliaid tai o'r hyn y gellir ac na ellir ei dderbyn. Mae gweithdrefn orfodi wedi'i rhoi ar waith i ymdrin â throseddwyr cyson.

# POLISI CASGLU SBWRIEL A DEUNYDDIAU AILGYLCHU

Nid yw'r ddogfen bolisi hon yn ymwneud â'r defnydd o "safleoedd dod â chasgliadau" na chwsmeriaid gwastraff masnach.

**ADRAN 1 - SBWRIEL (na ellir ei ailgylchu)**

1.1 Mae gwastraff whilfiniau llwyd yn wastraff o aelwydydd domestig na ellir ei ailgylchu, ei gompostio, ei ailddefnyddio na'i waredu trwy ddulliau eraill. O fis Ebrill 2013, bydd unrhyw aelwyd sy'n gofyn am whilfin newydd yn cael un, yn amodol ar ffi gweinyddu a danfon. Bydd un whilfin 140 litr llwyd yn cael ei ddarparu fel y maint safonol ar gyfer gwastraff cartref (na ellir ei ailgylchu). Os bydd yr aelwyd yn teimlo bod y bin 140 litr yn rhy fach, gall ofyn am faint arall. Ddim ond yn dilyn asesiad o anghenion unigol y gwneir trefniadau eraill ar gyfer meintiau ychwanegol. Gweler Adran 7 - Materion Eraill sy'n delio â cheisiadau gan ddeiliaid tai am fwy o finiau.

1.2 Rhaid i'r bin sbwriel llwyd aros yn y cyfeiriad a roddwyd iddo, a rhaid i'r bin hwnnw aros yn yr eiddo pe bai deiliad y tŷ yn gadael.

1.3 Mae biniau sbwriel llwyd yn perthyn i'r Awdurdod bob amser, ond mae gan ddeiliaid tai unigol gyfrifoldeb i gadw'r whilfin yn ddiogel a'i arbed rhag cael ei gamddefnyddio.

1.4 Mae deiliaid tai unigol yn gyfrifol am gadw'u biniau mewn cyflwr hylan a defnyddiol ac am sicrhau bod rhif/enw'r tŷ wedi'i nodi'n glir ar y bin.

1.5 Mae'r biniau sbwriel llwyd yn cael eu gwagio bob pythefnos; bydd deiliaid tai yn cael gwybod pryd y dylid cyflwyno'r biniau i'w casglu.

1.6 Dim ond **un bin fesul eiddo bob pythefnos** y bydd criwiau sbwriel yn ei wagio oni bai yr awdurdodir yn wahanol. Ni fydd unrhyw wastraff nad yw yn y whilfin yn cael ei symud gan y criwiau sbwriel. Bydd unrhyw finiau dros ben/ychwanegol ym meddiant deiliad tŷ yn cael eu hadfeddiannu gan yr Awdurdod os ydynt yn eiddo i CBSMT. Os nad ydynt yn eiddo i CBSMT, bydd llythyr yn cael ei anfon at ddeiliad y tŷ yn egluro mai dim ond sbwriel o un whilfin bob pythefnos y bydd yr Awdurdod yn ei gasglu. Dim ond biniau a gyflenwir gan CBSMT fydd yn cael eu gwagio. Mae'r biniau hyn wedi'u nodi'n glir fel rhai sy'n eiddo i'r Awdurdod.

1.7 Ni chesglir **unrhyw sbwriel ochr** ac eithrio adeg y Nadolig ac yn ystod cyfnodau o dywydd garw os bydd casgliadau wedi'u hatal; cyfrifoldeb deiliad y tŷ yw hyn a dylai gyflwyno'r gwastraff i'w gasglu ar y diwrnod priodol yn y cynhwysydd priodol neu ei waredu yn unol â hynny, e.e. yn y Ganolfan Gwastraff Cartref ac Ailgylchu leol.

1.8 Mae'r biniau sbwriel llwyd wedi'u dylunio fel y gellid eu gwagio'n ddiogel **ddim ond os yw eu caeadau ar gau**, felly bydd unrhyw finiau sydd wedi'u gorlwytho yn cael eu gwrthod ac ni fyddant yn cael eu gwagio.

1.9 Ni fydd biniau sbwriel llwyd sy'n cynnwys gwastraff nad yw'n wastraff cartref, yn cael eu gwagio. (Gweler Atodiad 1 am y mathau o wastraff sy'n cael eu gwahardd).

1.10 Cyfrifoldeb deiliad y tŷ yw gosod y bin sbwriel llwyd ar ymyl y ffordd (neu mewn lleoliad y cytunwyd arno gan y Goruchwyliwr/Warden) erbyn 7.00am ar y diwrnod casglu a'i symud o'r man casglu cyn gynted â phosibl. Os bydd angen i'r Awdurdod symud y bin i safle lle gellir ei wagio, bydd yn rhaid i ddeiliad y tŷ ei nôl cyn gynted ag y gall wneud hynny. Os na fydd y bin allan erbyn 7.00am, ni fydd y Criwiau Casglu yn dychwelyd i wagio'r bin.

1.11 Os cyflwynir cynhwysydd gwastraff anghywir, ni fydd yn cael ei wagio a bydd yn cael ei adael tan y diwrnod casglu canlynol.

1.12 Fel arfer, os na chaiff biniau sbwriel eu gwagio o ganlyniad uniongyrchol i fethiant y gwasanaeth, fe gânt eu gwagio erbyn diwedd y diwrnod gwaith canlynol (mae wythnos waith y gwasanaeth yn rhedeg o ddydd Llun i ddydd Gwener). Bydd gwybodaeth ynglŷn â chasgliadau a gafodd eu tarfu/gohirio ar raddfa eang yn cael ei harddangos ar wefan yr Awdurdod.

1.13 Dim ond os bydd difrod neu golled yn digwydd wrth i staff yr Awdurdod ymdrin â bin y caiff bin sbwriel llwyd newydd ei roi am ddim. Pan fo deiliad tŷ yn difrodi/colli bin, fe gaiff bin newydd ei roi ar yr amod bod ffi gweinyddu a danfon yn cael ei dalu cyn i'r bin gael ei ddosbarthu.

1.14 Bydd pob cais am finiau sbwriel llwyd yn cael ei ddosbarthu o fewn 10 niwrnod gwaith i'r hysbysiad.

1.15 Ar ôl dosbarthu bin sbwriel llwyd, os gwelir bod yna fin sbwriel eisoes yn yr eiddo ni fydd y bin newydd yn cael ei adael yno, a chaiff y mater ei riportio i'r Tîm Gwastraff a all drefnu ymweliad i drafod eitemau megis ailgylchu a lleihau gwastraff gyda deiliad y tŷ. Bydd y ffi gweinyddu a danfon yn parhau'n ddyledus.

1.16 Pan nad yw deiliaid tai yn dilyn y canllawiau, ni fydd biniau sbwriel llwyd yn cael eu gwagio. Bydd tagiau coch yn cael eu gosod ar finiau yn nodi'r rhesymau posibl am y diffyg casgliad. Rhoddir Rhif Gwasanaeth Cwsmer hefyd os bydd angen cyngor pellach. At hynny, bydd Wardeniaid Gwastraff ac Ailgylchu hefyd yn cofnodi manylion tai y rhai nad ydynt wedi'u gwagio. Pan fydd tag coch wedi'i roi, ni fydd y criwiau'n dychwelyd i wagio'r bin, a bydd rhaid i ddeiliad y tŷ sicrhau ei fod wedi unioni'r broblem cyn y casgliad arferol nesaf.

1.17 Bydd gan rai cartrefi fannau casglu cymunedol, er enghraifft: fflatiau, ffyrdd pengaead, terasau cefn wrth gefn, neu dai tref. Yr un egwyddorion sy'n berthnasol i fannau casglu cymunedol a mannau casglu eraill, yn yr ystyr na fydd unrhyw orlif neu sbwriel ochr yn cael eu casglu.

1.18 Os cyflwynir sbwriel ochr mewn man casglu cymunedol a bod tystiolaeth ar gael o berchnogaeth y gwastraff, bydd Gweithdrefn Orfodi Garlam yn cael ei rhoi ar waith, h.y. caiff Hysbysiad Adran 46 ei gyhoeddi cyn gynted ag y bydd y dystiolaeth wedi'i hel ynghyd.

1.19 Lle na cheir unrhyw dystiolaeth o berchnogaeth y gwastraff, bydd y sbwriel ochr yn cael ei dapio â thâp coch “Gwastraff Ychwanegol” a’i adael am 2 ddiwrnod fel bod deiliaid tai yn cael gwybod am y drosedd cyn i’r Tîm Gweithredol drefnu ei gasglu.

1.20 Lle dynodir cyfleusterau storio ar gyfer biniau, rhaid i ddeiliaid tai sicrhau eu bod yn cael gwared ar eu heitemau sbwriel yn y bin priodol. Ni ddylid gadael eitemau wrth ochr neu o fewn y cyfleuster storio biniau.

1.21 Bydd methiant deiliad y tŷ i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion yr Awdurdod uchod yn golygu na fydd y bin sbwriel llwyd yn cael ei wagio.

**ADRAN 2 – DEUNYDDIAU AILGYLCHU SYCH**

2.1 Fel rhan o’r gwasanaeth safonol ar gyfer gwastraff ailgylchadwy, mae pob cartref yn cael, am ddim, tri bocs ailgylchu 55 litr gyda chaeadau ynghyd â bag glas amldro. Nid oes cynhwysydd ailgylchu amgen ar gael ar gyfer rhai mathau o eiddo.

2.2 Mae rhai eiddo wedi cael system ar gyfer stacio bocsys. Lle bynnag y caiff hyn ei weithredu, mae’r cartref hefyd yn cael bocs ychwanegol a bag amldro.

2.3 Rhaid i bob cynhwysydd ailgylchu aros yn y cyfeiriad a roddwyd iddynt a dylent aros gyda’r eiddo pe bai deiliad y tŷ yn gadael.

2.4 Mae cynwysyddion ailgylchu yn perthyn i’r Awdurdod bob amser, ond mae deiliaid tai unigol yn gyfrifol am gadw’r bocs(ys) ailgylchu yn ddiogel a’u harbed rhag cael eu camddefnyddio.

2.5 Mae deiliaid tai unigol yn gyfrifol am gadw’u cynwysyddion ailgylchu mewn cyflwr hylan a defnyddiol.

2.6 Mae’r cynwysyddion ailgylchu yn cael eu gwagio wrth ymyl y ffordd bob wythnos a dylid eu gosod allan i’w casglu ar ddiwrnod penodol. Ar gais, mae taflenni gwybodaeth yn cael eu dosbarthu i hysbysu deiliaid tai sydd efallai’n newydd i Ferthyr Tudful neu heb gymryd rhan mewn ailgylchu o’r blaen, o bryd a ble y dylid cyflwyno’r cynwysyddion ailgylchu i’w casglu.

2.7 Bydd criwiau ailgylchu yn gwagio gwastraff sydd yn y cynwysyddion ailgylchu. Os oes gan ddeiliaid tai ddeunyddiau ailgylchu ychwanegol sydd ddim yn ffitio o fewn y bocs/bag, gallant roi’r rhain mewn bagiau/sachau wrth ochr/ar ben y cynwysyddion. Dylid nodi “ailgylchu” yn glir ar y bagiau/sachau hyn. Fel arall, gall deiliaid tai fynd â nhw i Ganolfan Gwastraff Cartref ac Ailgylchu neu safle ailgylchu arall yn y Fwrdeistref Sirol lle bydd gofyn iddynt wagio’r bagiau/sachau yn y cynwysyddion ailgylchu perthnasol. Os oes gan ddeiliaid tai ddeunyddiau ychwanegol i’w hailgylchu’n aml, gallant ofyn am fwy o gynwysyddion ailgylchu trwy Adain Gwasanaethau Cwsmeriaid CBSMT.

2.8 Cyfrifoldeb deiliad y tŷ yw gosod y cynwysyddion ailgylchu ar ymyl y ffordd (neu mewn lleoliad arall y cytunwyd arno gyda’r Goruchwyliwr/Warden) erbyn 7.00am ar y diwrnod casglu. Os bydd angen i’r Awdurdod symud y bocs i safle lle gellir ei wagio, cyfrifoldeb y deiliad fydd ei gael yn ôl a hynny cyn gynted â phosibl. Os na fydd y cynwysyddion

ailgylchu allan erbyn 7.00am, ni fydd y criwiau'n dychwelyd i'w casglu, a chaiff deiliad y tŷ wybod am yr opsiwn i naill ai cadw'r deunyddiau tan y casgliad arferol nesaf neu fynd â'r deunyddiau i'r Ganolfan Gwastraff Cartref ac Ailgylchu.

2.9 Bydd cynwysyddion ailgylchu newydd yn cael eu danfon o fewn 10 niwrnod gwaith i dderbyn y cais.

2.10 Bydd y danfoniadau cyntaf, e.e. i eiddo newydd, yn digwydd o fewn 10 niwrnod gwaith i dderbyn cais.

2.11 Ni fydd cynwysyddion ailgylchu sy'n cynnwys deunyddiau heblaw'r rhai cymwys (gweler Atodiad 2 am ddeunyddiau derbyniol) yn cael eu gwagio, a byddant yn cael eu dosbarthu fel cynwysyddion halogedig. Cyfrifoldeb y deiliad tŷ unigol yw cael gwared ar yr halogiad a'i waredu yn y modd cywir. Bydd tagiau'n cael eu gosod ar gynwysyddion yn hysbysu deiliaid tai o'r halogiad.

2.12 Fel arfer, os na chaiff deunyddiau ailgylchu eu gwagio gan yr Awdurdod o ganlyniad uniongyrchol i fethiant y gwasanaeth, fe gânt eu symud erbyn diwedd y diwrnod gwaith canlynol (yr wythnos waith ar gyfer y gwasanaeth yw dydd Llun i ddydd Gwener). Bydd gwybodaeth ynglŷn â chasgliadau a gafodd eu tarfu ar raddfa eang yn cael ei harddangos ar wefan yr Awdurdod ac ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol.

2.13 Mae'n ofynnol i ddeiliaid tai sicrhau bod deunyddiau ailgylchu yn cael eu gwagio, eu rinsio a'u gosod yn rhydd yn y cynwysyddion ailgylchu. Dylid cadw papurau newydd a chylchgronau ar wahân ac yn sych a'u rhoi i'w casglu mewn bocs ailgylchu gyda chaead.

2.14 Os oes cynhwysydd gwastraff/ailgylchu anghywir yn bresennol, ni fydd yn cael ei wagio a bydd yn cael ei adael tan y diwrnod casglu canlynol ar gyfer y math hwnnw o wastraff.

2.15 Lle nad yw deiliaid tai yn dilyn y canllawiau a roddir, ni fydd bocsys ailgylchu gwyrdd yn cael eu gwagio. Bydd tagiau'n cael eu gosod ar gynwysyddion i roi gwybod am resymau posibl dros beidio â'u casglu. Darperir rhif y gwasanaeth i gwsmeriaid os bydd angen cyngor pellach. Bydd criwiau casglu hefyd yn cofnodi ar gofrestr ddyddiol y manylion ar gyfer y tai lle nad yw biniau'n cael eu gwagio. Pan fydd tag wedi'i roi, ni fydd y criwiau'n dychwelyd i wagio'r cynhwysydd/cynwysyddion. Rhaid i ddeiliad y tŷ sicrhau ei fod wedi unioni'r broblem cyn y casgliad arferol nesaf.

2.16 Bydd methiant deiliad y tŷ i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion yr Awdurdod uchod yn golygu na fydd y cynwysyddion ailgylchu yn cael eu gwagio.

**ADRAN 3 - GWASTRAFF BWYD**

3.1 Mae pob cartref yn cael un cadi cegin glas 5 litr ar gyfer storio bwyd yn fewnol ac un cynhwysydd glas 23 litr y gellir ei gloi ar gyfer storfa allanol.

3.2 Er mwyn annog deiliaid tai newydd i gymryd rhan yng nghynllun CBSMT i gasglu gwastraff bwyd o ymyl y ffordd, fe gânt ddau rolyn o leinin cadi a wneir o startsh compostadwy, a hynny'n rhad ac am ddim. Gellir cael leininau newydd am ddim o wahanol leoliadau ar draws y Fwrdeistref Sirol (gweler Atodiad 3).

3.3 Os nad yw deiliaid tai yn dymuno defnyddio leininau gwastraff bwyd, gall y gwastraff bwyd gael ei lapio mewn papur newydd a ddarperir gan y cartref.

3.4 Ni fydd bagiau plastig a bagiau/leininau bioddiraddadwy yn cael eu casglu, gan nad ydynt yn cael eu derbyn yn y cyfleuster sy'n trin y gwastraff bwyd.

3.5 Rhaid i bob cynhwysydd gwastraff bwyd glas aros yn y cyfeiriad a roddwyd iddo ac aros gyda'r eiddo pe bai deiliaid y tŷ yn gadael.

3.6 Mae cynwysyddion gwastraff bwyd glas yn perthyn i'r Awdurdod bob amser, ond mae gan ddeiliaid tai unigol gyfrifoldeb am gadw'r cynwysyddion gwastraff bwyd yn ddiogel a'u harbed rhag cael eu camddefnyddio.

3.7 Mae deiliaid tai unigol yn gyfrifol am gadw eu cynwysyddion gwastraff bwyd glas mewn cyflwr hylan a defnyddiol.

3.8 Mae'r cynhwysydd gwastraff bwyd glas yn cael ei wagio wrth ymyl y ffordd bob wythnos a dylid ei osod allan i'w gasglu ar ddiwrnod penodol. Ar gais, mae taflenni gwybodaeth yn cael eu dosbarthu i hysbysu deiliaid tai a allai fod yn newydd i Ferthyr Tudful neu sydd heb gymryd rhan mewn casgliadau gwastraff bwyd o ymyl y ffordd o'r blaen, o bryd a ble y dylid cyflwyno'r cynhwysydd gwastraff bwyd glas i'w gasglu.

3.9 Bydd Criwiau Ailgylchu yn gwagio'r gwastraff bwyd yn y cynhwysydd glas ar ei gyfer. Os oes gan ddeiliaid tai wastraff bwyd ychwanegol bob wythnos, gallant ofyn am gynhwysydd 23 litr ychwanegol drwy Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid CBSMT neu drwy'r Wardeniaid Gwastraff ac Ailgylchu.

3.10 Cyfrifoldeb deiliad y tŷ yw gosod y cynwysyddion gwastraff bwyd glas ar ymyl y ffordd (neu mewn lleoliad arall y cytunwyd arno gyda'r Goruchwyliwr/Warden) erbyn 7.00am ar y diwrnod casglu.

Os bydd angen i'r Awdurdod symud y cynhwysydd i safle lle gellir ei wagio, bydd yn rhaid i ddeiliad y tŷ ei nôl cyn gynted ag y gall wneud hynny. Os na fydd y cynhwysydd gwastraff bwyd allan erbyn 7.00am, ni fydd y Criwiau yn dychwelyd i'w gasglu.

3.11 Bydd cynwysyddion gwastraff bwyd glas newydd yn cael eu danfon o fewn 10 niwrnod gwaith i dderbyn ceisiadau.

3.12 Bydd y danfoniadau cyntaf, e.e. i eiddo newydd, yn cael eu danfon o fewn 10 niwrnod gwaith i dderbyn cais.

3.13 Ni fydd cynwysyddion gwastraff sy'n cynnwys deunyddiau heblaw'r rhai y gofynnwyd amdanynt (gweler Atodiad 4 am ddeunyddiau derbyniol) yn cael eu gwagio a byddant yn cael eu dosbarthu fel cynwysyddion halogedig. Bydd tagiau'n cael eu gosod ar gynwysyddion yn hysbysu deiliaid tai o'r halogiad. Cyfrifoldeb y deiliad tŷ unigol yw cael gwared ar yr halogiad a'i waredu yn y modd cywir.

3.14 Fel arfer, os na chaiff deunyddiau ailgylchu eu gwagio gan yr Awdurdod o ganlyniad uniongyrchol i fethiant y gwasanaeth, fe gânt eu symud erbyn diwedd y diwrnod gwaith canlynol (yr wythnos waith ar gyfer y gwasanaeth yw dydd Llun i ddydd Gwener). Bydd gwybodaeth ynglŷn â chasgliadau a gafodd eu tarfu ar raddfa eang yn cael ei harddangos ar wefan yr Awdurdod ac ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol.

3.15 Os cyflwynir cynhwysydd gwastraff/ailgylchu anghywir, ni fydd yn cael ei wagio a chaiff ei adael tan y diwrnod casglu canlynol ar gyfer y math hwnnw o wastraff.

3.16 Os na fydd deiliaid tai yn dilyn y canllawiau a roddir, ni fydd y cynwysyddion gwastraff bwyd glas yn cael eu gwagio. Bydd tagiau'n cael eu gosod ar y cynwysyddion i roi gwybod am y rhesymau posibl dros beidio â'u casglu. Darperir rhif y gwasanaeth i gwsmeriaid os bydd angen cyngor pellach arnynt. Bydd Criwiau Casglu hefyd yn cofnodi ar gofrestr ddyddiol y manylion o'r tai lle nad yw biniau'n cael eu gwagio. Pan fydd tag wedi'i roi, ni fydd y Criwiau'n dychwelyd i wagio'r cynhwysydd/cynwysyddion. Rhaid i ddeiliad y tŷ sicrhau ei fod wedi unioni'r broblem cyn y casgliad arferol nesaf.

3.17 Bydd methiant deiliad y tŷ i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion yr Awdurdod uchod yn golygu na fydd y cynhwysydd/cynwysyddion gwastraff bwyd yn cael eu gwagio.

**ADRAN 4 - GWASTRAFF GARDD**

4.1 Nid yw'r Awdurdod yn gallu cynnig y gwasanaeth hwn i holl strydoedd y Fwrdeistref Sirol oherwydd cyfyngiadau logistaidd (dim gardd/gardd fechan). Pan fo'r gwasanaeth ar gael, darperir un bag polypropylen gwyrdd 90 litr amldro ar gyfer gwastraff gardd, a darperir hynny'n rhad ac am ddim ar sail "untro".

4.2 Caiff gwastraff gardd ei gasglu'n dymhorol ar hyn o bryd (Ebrill - Rhagfyr) a gwneir hynny bob pythefnos ar yr wythnos pan na chesglir sbwriel y deiliaid tai. Ceir rhai eithriadau i'r drefn hon pan gesglir sbwriel a gwastraff gardd o fewn yr un wythnos.

4.3 Gall deiliaid tai â gerddi mwy wneud cais am fagiau ychwanegol at ddibenion gwastraff gardd. Lle cynhyrchir gwastraff gardd ychwanegol, gellir hefyd ei gasglu mewn sachau plastig cyhyd â'i fod yn hawdd ei adnabod. Os cyflwynir sachau plastig i'w casglu, caiff y rhai gwag eu gadael yn yr eiddo ar ôl y casgliad.

4.4 Dim ond gwastraff gardd a roir yn y bag/sach plastig amldro a fydd yn cael ei gasglu. Bydd gwastraff gardd a roir mewn bagiau'n unig, yn cael ei gasglu. Ni fydd unrhyw wastraff gardd rhydd yn cael ei gasglu (gweler Atodiad 5 am y deunyddiau a dderbynnir).

4.5 Rhaid i'r bagiau gwastraff gardd amldro aros yn y cyfeiriad lle cawsant eu rhoi a rhaid iddynt aros yno os digwydd i'r deiliaid adael.

4.6 Mae bag(iau) gwastraff gardd amldro yn perthyn i'r Awdurdod bob amser, ond mae gan ddeiliaid tai unigol gyfrifoldeb am gadw'r bag(iau) gwastraff gardd yn ddiogel a'u harbed rhag cael eu camddefnyddio.

4.7 Mae deiliaid tai unigol yn gyfrifol am gadw'u bag(iau) gwastraff gardd amldro mewn cyflwr defnyddiol.

4.8 Mae'r bag(iau) gwastraff gardd amldro yn cael eu gwagio wrth ymyl y ffordd bob pythefnos a dylid eu gosod allan i'w casglu ar ddiwrnod penodol. Ar gais, mae taflenni gwybodaeth yn cael eu dosbarthu i hysbysu deiliaid tai a allai fod yn newydd i Ferthyr Tudful neu sydd heb gymryd rhan mewn casgliadau bwyd o ymyl y ffordd o'r blaen, o bryd a ble y dylid cyflwyno'r bag(iau) gwastraff gardd i'w casglu.

4.9 Os cyflwynir cynhwysydd gwastraff/ailgylchu anghywir, ni fydd yn cael ei wagio a chaiff ei adael tan y diwrnod casglu canlynol ar gyfer y math hwnnw o wastraff.

4.10 Bydd unrhyw fagiau a gyflwynir i'w casglu ac yn pwyso mwy na 50 kg, yn cael eu gwrthod ac ni fyddant yn cael eu gwagio.

4.11 Ni fydd bagiau gwastraff gardd amldro sy'n cynnwys halogion, yn cael eu gwagio (gweler Atodiad 6 am y deunyddiau na dderbynnir).

4.12 Cyfrifoldeb deiliad y tŷ yw gosod y bagiau gwastraff gardd ar ymyl y ffordd (neu mewn lleoliad arall y cytunwyd arno gyda'r Goruchwyliwr/Warden) erbyn 7.00am ar y diwrnod casglu. Os bydd angen i'r Awdurdod symud y bagiau i safle lle gellir eu gwagio, cyfrifoldeb y deiliad fydd ei nôl a hynny cyn gynted â phosibl. Os na fydd y bag(iau) gwastraff gardd allan erbyn 7.00am, ni fydd y criwiau'n dychwelyd i'w casglu.

4.13 Fel arfer, os na chaiff bagiau gwastraff gardd eu gwagio o ganlyniad uniongyrchol i fethiant y gwasanaeth, fe gânt eu gwagio erbyn diwedd y diwrnod gwaith canlynol (yr wythnos waith ar gyfer y gwasanaeth yw dydd Llun i ddydd Gwener). Bydd gwybodaeth ynglŷn â chasgliadau a gafodd eu tarfu ar raddfa eang yn cael ei harddangos ar wefan yr Awdurdod.

4.14 Dim ond os bydd difrod neu golled yn digwydd wrth i staff yr Awdurdod ymdrin â bag(iau) gwastraff gardd amldro, y caiff rhai newydd eu rhoi. Os caiff bag(iau) eu colli neu'u difrodi, efallai y bydd rhaid i ddeiliad y tŷ dalu amdanynt.

4.15 Rhaid i ddeiliaid tai gysylltu â'r Awdurdod i roi gwybod os oes unrhyw golled neu ddifrod wedi digwydd.

4.16 Bydd bagiau amldro yn cael eu danfon ar gais. Bydd pob cais am fagiau amldro yn cael eu danfon o fewn 10 niwrnod gwaith i'r hysbysiad.

4.17 Lle nad yw deiliaid tai yn dilyn y canllawiau a roddir, ni fydd gwastraff gardd yn cael ei gasglu. Bydd tagiau'n cael eu gosod ar fagiau/sachau i roi gwybod am resymau posibl dros beidio â'u casglu. Darperir rhif y gwasanaeth i gwsmeriaid os bydd angen cyngor pellach. Pan fydd tag/sticer wedi'u rhoi, ni fydd y criwiau'n dychwelyd i wagio'r bagiau. Rhaid i ddeiliad y tŷ sicrhau ei fod wedi unioni'r broblem cyn y casgliad arferol nesaf.

4.18 Pan fydd gan ddeiliaid tai gryn dipyn o wastraff gardd (yr uchafswm i'w gasglu wrth ymyl y ffordd bob pythefnos yw 10 bag amldro neu gyfwerth), fe'u cynghorir i fynd â nhw i Ganolfan Gwastraff Cartref ac Ailgylchu neu ofyn am gasgliad ar gyfer gwastraff gardd swmpus.

4.19 Bydd methiant deiliad y tŷ i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion uchod yr Awdurdod yn golygu na fydd y bag(iau) gwastraff gardd yn cael eu gwagio.

## ADRAN 5 - TREFNIADAU GWASANAETH CYMORTH ARBENNIG

5.1 Mae’r gwasanaeth ychwanegol hwn yn casglu cynwysyddion sbwriel, deunyddiau ailgylchu a gwastraff bwyd o fewn neu’n agos at eiddo’r deiliad tŷ.

5.2 Darperir y gwasanaeth ychwanegol hwn i bobl sy’n bodloni’r meini prawf canlynol:

- mae’r ymgeisydd wedi’i analluogi dros dro neu’n dod o fewn y diffiniad o berson anabl a gydnabyddir yn Neddf Cydraddoldeb 2010;
- nid oes unrhyw berson abl arall yn byw yn yr un eiddo;
- nid oes cymorth ar gael gan unrhyw aelod o’r teulu na chymydog i fynd â’r cynhwysydd i’r man casglu;
- bydd yr ymgeisydd, os gofynnir iddo wneud hynny, yn darparu prawf o’i analluogrwydd (nodyn meddyg);
- bydd mynediad ar gael i’r Criw Casglu o 7.00am.

5.3 Os bodlonir y meini prawf uchod, rhaid i ddeiliad y tŷ gysylltu ag Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid CBSMT yn y lle cyntaf pryd y gofynnir iddo gwblhau ffurflen gais i sefydlu a yw’n teilyngu’r gwasanaeth arbennig (Gweler Atodiad 7). Bydd hyn yn sicrhau bod gennym gofnod ysgrifenedig wedi’i lofnodi o bob deiliad yn y tŷ a chofnod o unrhyw wir angen am y gwasanaeth casglu â chymorth. Mae’n bosibl y bydd angen ymweliad cartref er mwyn i’r Awdurdod gymhwyso’r ymgeisydd.

5.4 Bydd llythyr a ffurflen gais yn cael eu hanfon ym mis Ebrill at ymgeiswyr sy’n derbyn y gwasanaeth casglu arbennig, i gadarnhau bod angen y gwasanaeth arnynt ddwywaith y flwyddyn. Os na ddaw ymateb i law’r Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid CBSMT o fewn 14 diwrnod i’r ymgeisydd yn derbyn y llythyr a’r ffurflen gais, bydd manylion yr ymgeisydd yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr casglu arbennig a bydd y casgliad ymyl-y-ffordd arferol yn cael ei weithredu.

5.5 Caiff penderfyniadau ynghylch teilyngdod ar gyfer y gwasanaeth hwn eu gwneud yn ôl disgresiwn yr Awdurdod.

**ADRAN 6 – EIDDO SY'N ANODD EI GYRRAEDD**

6.1 Gall eiddo sy'n anodd ei gyrraedd gynnwys, ymhlith pethau eraill, eiddo mewn lleoliad anghysbell/ynysig, eiddo â grisiau, llethrau serth, rhodfeydd graean, mynediad cul a chyfyngedig, ffyrdd/tramwyfeydd preifat, ffyrdd â phontydd isel.

6.2 Bydd yr Awdurdod yn asesu os gall yr eiddo ddygymod ag unrhyw rai o'r gwasanaethau gwastraff. Os caiff yr asesiad ei gymeradwyo, bydd y mathau hyn o eiddo yn derbyn gwasanaeth casglu sbwriel bob pythefnos a gwasanaeth casglu deunyddiau ailgylchu a gwastraff bwyd bob wythnos, cyn belled â bod y gwastraff wedi'i gynnwys yn addas.

6.3 Oherwydd anawsterau o ran mynediad i gerbydau, efallai y cynigir gwasanaeth whilfin ar gyfer sbwriel yn unig, gan hepgor casgliadau ar gyfer gwastraff gardd, bwyd neu ddeunyddiau ailgylchu; bydd y cartrefi hyn yn derbyn gwasanaeth casglu sbwriel bob pythefnos ac yn cael eu hannog i fynd â'u deunyddiau ailgylchu i'r Canolfannau Gwastraff Cartref ac Ailgylchu.

6.4 Ar gyfer eiddo sy'n anodd ei gyrraedd, dylid gosod y gwastraff mewn cynwysyddion y tu allan iddo wrth ymyl y ffordd, i'w gasglu ar y diwrnod a drefnwyd. Bydd y criwiau'n casglu gwastraff o ymyl y ffordd, oni bai bod yr Awdurdod wedi cytuno i ddarparu cymorth arbennig.

6.5 Os bydd yr Awdurdod yn tybio bod eiddo mor ynysig neu anhygyrch (er enghraifft, os saif yr eiddo gryn bellter o'r briffordd gyhoeddus ar hyd trac neu dramwyfa), cyfrifoldeb y deiliad tŷ fydd cyflwyno sbwriel a deunyddiau ailgylchu i'w casglu ar gwrtil (ffin) yr annedd agosaf i'r ffordd fynediad.

6.6 Ni fydd sachau sbwriel yn cael eu darparu gan yr Awdurdod at ddibenion sbwriel na deunyddiau ailgylchu.

## ADRAN 7 - MATERION ERAILL

### Aelwydydd gyda hyd at 6 o Breswylwyr

7.1 Ym mis Ebrill 2013, cyflwynodd yr Awdurdod whilfiniau 140 litr fel y maint safonol. Os yw deiliad y tŷ yn honni na fydd bin 140 litr yn ddigon ar gyfer ei holl sbwriel, yna gellir cynnig bin 240 litr yn ei le (gan ddibynnu ar yr amgylchiadau) ar ôl cwblhau'r ffurflen gais berthnasol.

7.2 Os bydd deiliad y tŷ eisiau whilfin â chapasiti ychwanegol ar gyfer ei gartref, bydd angen iddo wneud cais ysgrifenedig ac amgáu tystiolaeth o'i amgylchiadau. Ar ôl i'r ffurflen gais orffenedig ddod i law, bydd y capasiti ychwanegol priodol yn cael ei awdurdodi yn amodol ar y meini prawf a osodwyd. Bydd yr eithriadau hyn yn cael eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn i gadarnhau nad yw amgylchiadau wedi newid.

7.3 Bydd Wardeniaid Gwastraff ac Ailgylchu yn cynnal Archwiliadau Gwastraff ar gyfer cartrefi sy'n cael trafferth gyda'r gwasanaeth. Bydd cyngor a gwybodaeth yn cael eu darparu i sicrhau bod cymaint â phosibl o ailgylchu yn cael ei wneud gan gartrefi o'r fath, cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud ynghylch yr angen am whilfin mwy o faint.

### Aelwydydd gyda 6 neu fwy o Ddeiliaid Tai

7.4 Lle mae aelwydydd yn cynnwys 6 neu fwy o ddeiliaid tai, efallai y bydd angen capasiti ychwanegol arnynt ar gyfer gwastraff gweddilliol. Rhaid i ddeiliaid tai gysylltu ag Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid CBSMT i ddechrau, a bydd gofyn iddynt gwblhau ffurflen gais (gweler Atodiad 8). Bydd hyn yn sicrhau bod gennym gofnod ysgrifenedig wedi'i lofnodi o nifer y deiliaid o fewn y tŷ a chofnod o unrhyw gwir angen am gapasiti gwastraff ychwanegol.

7.5 Bydd y cais hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddeiliaid tai gwblhau dyddiadur gwastraff wythnos o hyd (gweler Atodiad 9) i nodi'r deunyddiau y maent yn eu taflu bob dydd. Nod hyn yw annog deiliaid tai i feddwl am eu gwastraff ac ystyried a ellid cymryd camau i'w leihau, ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu, ac i feddwl a oes gwir angen capasiti ychwanegol arnynt.

7.6 Pan fydd y Tîm Gwasanaethau Gwastraff yn derbyn y ffurflen gais, bydd Warden Gwastraff ac Ailgylchu yn cynnal archwiliad gwastraff i asesu a oes angen capasiti ychwanegol arnynt.

7.7 Cynhelir archwiliad gwastraff gan Warden Gwastraff ac Ailgylchu pan fo deiliad tŷ:

1. yn gofyn am gapasiti ychwanegol;
2. yn gofyn am gapasiti ychwanegol oherwydd bod gan ddeiliad o fewn y tŷ amgylchiadau arbennig sy'n creu swm anarferol o wastraff cartref a bod hynny'n cael ei gynhyrchu'n rheolaidd (e.e. cewynnau/gwastraff hylendid);
3. yn cynhyrchu gwastraff ochr yn barhaus;
4. yn achosi problemau o ran halogi; neu
5. yn achosi unrhyw sefyllfa arall lle bernir bod archwiliad gwastraff yn briodol.

7.8 Ni fydd deiliad y tŷ yn derbyn hysbysiad o'r archwiliad, gan y bydd yn cael ei gynnal ar y diwrnod casglu arferol. Bydd deiliad y tŷ yn derbyn llythyr yn manylu ar ganlyniad yr archwiliad:

(a) Dim deunyddiau y gellir eu hailgylchu'n hawdd yn y bin:

- capasiti biniau llwyd ychwanegol wedi'i gymeradwyo a'i weithredu. Bydd y bin llwyd 140 litr yn cael ei gyfnewid am fin llwyd 240 litr;

- canllawiau ar leihau gwastraff yn cael eu rhoi.

(b) Deunyddiau y gellir eu hailgylchu'n hawdd yn y bin llwyd:

- cynigir bocs/bag ailgylchu ychwanegol - ni roddir biniau llwyd â chapasiti ychwanegol.

(c) Lle nodir deunyddiau eraill neu feintiau sy'n achosi pryder:

- canllawiau ynghyd â chyngor yn cael eu rhoi ar sut i ymdrin yn gywir â gwastraff/lleihau gwastraff.

7.9 Bydd caniatâd ar gyfer capasiti ychwanegol yn cael ei wrthod:

- pan fo'r ffurflen gais a ddychwelir yn dangos nad yw'r aelwyd yn dod o dan y 2 gategori cyntaf uchod, h.y. pwyntiau 1 a 2;
- pan nad yw deiliaid tai yn defnyddio'r gwasanaethau ailgylchu/compostio a gynigir;
- pan fo ymweliad ac awdit gwastraff yn dangos nad yw'r cartref yn lleihau gwastraff nac yn ailgylchu gymaint â phosibl;
- pan fo ymweliad â chartref yn dangos nad oes unrhyw wastraff dros ben yno.

7.10 Bydd ymweliad gan swyddog yn cael ei gynnig i unrhyw gartref sy'n gofyn am gapasiti biniau ychwanegol.

7.11 Os bydd deiliad y tŷ yn gofyn am ymweliad o'r fath, caiff ei gynnal ar ddiwrnod casglu'r biniau llwyd nesaf neu'r diwrnod cyn hynny.

7.12 Bydd gwastraff yn cael ei hidlo i nodi deunyddiau ailgylchu sych, bwyd, gwastraff gardd a gwastraff gweddilliol na ellir mo'i ailgylchu.

7.13 Os yw'n ymddangos bod y bin yn cynnwys cryn dipyn o ddeunyddiau ailgylchu sych, gwastraff bwyd neu wastraff gardd, bydd deiliad y tŷ yn cael cynnig rhagor o gynwysyddion ailgylchu/gwastraff bwyd neu sachau gwastraff gardd yn unol â hynny.

7.14 Ar ôl cynnal ymarfer o'r fath, os na all mwy o wastraff gweddilliol ffitio'r bin llwyd 140 litr, yna caiff bin mwy o faint (240 litr) ei awdurdodi, yn amodol ar y telerau a'r amodau a gynhwysir yn y ffurflen gais.

7.15 Bydd y capasiti ychwanegol yn cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn. Ar ôl cwblhau'r cais cychwynnol, anfonir llythyr at ymgeiswyr ym mis Ebrill bob yn ail flwyddyn i gadarnhau bod angen y capasiti ychwanegol o hyd. Os yw'r amgylchiadau teuluol wedi newid, bydd y capasiti ychwanegol yn cael ei ddileu. Os na cheir ymateb o fewn 14 diwrnod o dderbyn y llythyr, caiff y bin 240/360 litr ei symud ymaith a gosodir bin 140 litr yn ei le.

**Eiddo heb Balmant**

7.16 Lle nad oes palmant neu gwrb wrth ymyl eiddo, caniateir i ddeiliaid tai gyflwyno eu cynwysyddion i'w casglu ychydig y tu mewn i gwrtil eu heiddo (hyd at 1.5 metr o ymyl y ffordd ar y mwyaf).

**Ffyrdd Preifat/Heb eu Mabwysiadu**

7.17 Mae'r gwasanaeth casglu sbwriel, deunyddiau ailgylchu, bwyd a gwastraff gardd yn bennaf yn wasanaeth sy'n casglu o ben ffyrdd cyhoeddus. Mae hyn yn golygu ei fod yn ofynnol i ddeiliaid tai osod eu sbwriel ar y palmant neu wrth ymyl y ffordd gyhoeddus agosaf at eu heiddo. Mewn rhai amgylchiadau, gellir darparu gwasanaeth o ffyrdd preifat/heb eu mabwysiadu os ydynt yn bodloni ac yn cynnal y 4 amod canlynol:

1. <u>Arwyneb Ffordd</u>

   Rhaid i ffyrdd fod o adeiladwaith cadarn gydag arwyneb caled addas sy'n rhydd o unrhyw dyllau a rhwystrau a allai achosi difrod i'r cerbyd.

2. <u>Lled y Ffordd</u>

   Ni ddylai lled y ffordd fod yn llai na 3 metr ac ni ddylai gynnwys unrhyw rwystr gan goed, llwyni ac ati a allai achosi difrod i ochr y cerbyd.

3. <u>Cliriad Uchder</u>

   Ni ddylai'r cliriad lleiaf fod yn llai na 5.5 metr ac ni ddylai gynnwys unrhyw rwystr gan ganghennau, ceblau ac ati sy'n hongian drosodd, gan y gallai hynny achosi difrod i'r golau ar do'r cerbyd.

4. <u>Man Troi</u>

Lle nad oes ffordd drwodd yn bodoli, rhaid cael man addas sy'n caniatáu i'r cerbyd droi. Dylai'r man troi fod yn ddigon i ganiatáu cerbyd 10.22 metr o hyd i droi o fewn tri symudiad ar y mwyaf.

7.18 Mae angen arolygiad i sicrhau y gellir cynnig y gwasanaeth ym mhob achos. Rhaid i ddeiliaid tai ffonio Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid CBSMT ynghylch archwiliad o ffordd neu ddreif preifat.

7.19 Nid yw'r gallu i gynnig y gwasanaeth yn dibynnu'n gyfan gwbl ar yr amodau uchod - y Goruchwylydd sydd â'r penderfyniad terfynol.

**ADRAN 8 - GWASANAETH CASGLU GWASTRAFF SWMPUS**

8.1 Cynigir y gwasanaeth hwn i gael gwared ar eitemau domestig mawr o'r cartref. (Gweler Atodiad 10 am restr o'r eitemau a gesglir trwy'r gwasanaeth).

8.2 Nid yw gwastraff peryglus yn cael ei gasglu drwy'r gwasanaeth hwn (gweler Atodiad 10). Cynghorir deiliaid tai i geisio cael gwared ar y math hwn o wastraff yn y modd priodol, e.e. cwmnïau gwaredu gwastraff preifat. Ar gyfer rhai mathau o wastraff peryglus, e.e. paent, pryfleiddiaid ac ati, caiff deiliaid tai eu cyfeirio at y Canolfannau Gwastraff Cartref ac Ailgylchu.

8.3 Codir tâl am y gwasanaeth ac mae'n dibynnu ar nifer yr eitemau cartref sydd i'w casglu. (Gweler Atodiad 11 am weithdrefnau codi tâl).

8.4 Bydd deiliaid tai yn gallu dewis eu diwrnod casglu ar adeg archebu/talu, a dywedir wrthynt fod yn rhaid gadael eitemau y tu allan erbyn 7.00am mewn lleoliad y gellir eu casglu'n hawdd gan fecanwaith codi HIAB neu gerbyd â lifft cynffon. Ni fydd staff casglu yn mynd i mewn i eiddo er mwyn casglu eitemau oni bai bod y Swyddog Awdurdodedig wedi cymeradwyo hynny.

8.5 Caiff casgliadau eu gwneud o fewn 10 niwrnod gwaith i dderbyn y cais.

8.6 At hynny, gellir darparu cymorth yn ôl rhai amgylchiadau. Mater i'r goruchwyliwr yw penderfynu a yw'r achosion hynny'n teilyngu cymorth.

8.7 Caiff deiliad y tŷ ei hysbysu ar adeg ei gais am gasgliad, nad yw'r Awdurdod yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am doriadau a achosir gan y criw yn ystod y casgliad.

## ADRAN 9 – GWASANAETH CASGLU GWASTRAFF GARDD SWMPUS

9.1 Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i anelu'n benodol at ddeunyddiau y gellir eu compostio ac mae'n casglu gwastraff gardd mwy o faint fel coed, canghennau mawr neu lwythi swmpus o doriadau glaswellt/planhigion.

9.2 Codir tâl am y gwasanaeth ac mae'n dibynnu ar faint o wastraff sydd i'w gasglu. Gofynnir i ddeiliaid tai dorri eitemau mwy o wastraff gardd i feintiau hylaw. (Gweler Atodiad 12 am fanyleb).

9.3 Wrth wneud y cais, gofynnir cwestiynau amrywiol i ddeiliad y tŷ ynglŷn â'r gwastraff gardd. (Gweler Atodiad 13 am y rhestr o gwestiynau). Os bydd swmp mawr yn cymryd cryn dipyn o amser i'w lwytho, bydd y Goruchwyliwr yn mesur y gwastraff ac yn rhoi dyfynbris i ddeiliad y tŷ "yn ôl nifer y llwythi lori" cyn trefnu'r casgliad.

9.4 Pan wneir archeb a thaliad, bydd deiliad y tŷ yn cael gwybod am y diwrnod casglu a bod yn rhaid gadael eitemau y tu allan erbyn 7.00am mewn lleoliad y gellir eu casglu'n hawdd. Ni fydd y Staff Casglu yn mynd i mewn i eiddo i gasglu gwastraff gardd oni bai bod y Goruchwyliwr wedi cymeradwyo hynny.

9.5 Os yw deiliad y tŷ yn anabl/oedrannus ac angen casgliad â chymorth, gwneir trefniadau i Swyddog ymweld â'r eiddo i gasglu tâl a rhoi derbynneb amdano. Gofynnir am weld llyfr pensiwn/llyfr budd-dal anabledd.

9.6 At hynny, gellir darparu cymorth yn ôl rhai amgylchiadau. Mater i'r goruchwyliwr yw penderfynu a yw'r achosion hynny'n teilyngu cymorth.

9.7 Wrth gasglu, os cyflwynir mwy o wastraff nag y talwyd amdano, y Tîm Gweithredol fydd yn penderfynu a gaiff ei gasglu ai peidio. Os penderfynir peidio â chasglu, cynghorir deiliad y tŷ i gysylltu ag Adran Cymorth Gwasanaeth CBSMT i wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer taliadau ychwanegol a chasgliadau dilynol.

## ADRAN 10 – BINIAU/BOCSYS/CYNWYSYDDION CYWASGEDIG TRWM

10.1 Bydd whilfiniau a blychau/bagiau sy'n rhy drwm i'w gwagio a'r rhai sy'n rhy gywasgedig i'w gwagio'n rhwydd i'r cerbyd, yn cael hysbysiad wedi'i osod arnynt ac ni fyddant yn cael eu gwagio hyd nes bydd y deunyddiau wedi'u symud ymaith gan ddeiliad y tŷ.

10.2 Bydd angen i ddeiliad y tŷ ysgafnhau neu lacio cynnwys y bin, ac ar ôl cysylltu â'r Awdurdod bydd angen iddo ailgyflwyno'r bin yn unol â'r cyngor a roddwyd iddo.

## ADRAN 11 - MATERION AMRYWIOL

11.1 Ar unrhyw adeg, mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i adalw unrhyw whilfin, bocs ailgylchu, bag amldro, cynhwysydd gwastraff bwyd neu sachau gwastraff gardd o unrhyw aelwyd lle maent yn cael eu defnyddio'n amhriodol neu pan fo polisi'n mynnu nad yw'r cynwysyddion i'w defnyddio yno mwyach.

11.2 Ni ddylid rhoi gwastraff masnachol mewn whilfiniau na chynwysyddion ailgylchu sydd wedi'u neilltuo ar gyfer defnydd domestig hyd yn oed os yw'r gwastraff yn cael ei gynhyrchu gan fusnes sy'n gweithredu o gartref.

11.3 Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i newid amlder y casgliadau lle bo'n briodol, yn unol â'u perfformiad o ran tunelledd a chyfranogiad.

11.4 Bydd trefniadau'r Nadolig a Gwyliau Banc yn cael eu hysbysebu ar wefan yr Awdurdod, llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol a'r papurau newydd lleol. Bydd yr holl wastraff ochr sydd mewn sachau du yn cael ei gasglu yn ystod cyfnod y Nadolig gan ddychwelyd i'r gweithdrefnau casglu arferol o wythnos waith lawn gyntaf y Flwyddyn Newydd.

11.5 Caiff yr holl wastraff ochr mewn sachau du ei gasglu os yw tywydd garw yn atal casgliadau arferol.

11.6 Pan fo deiliaid tai yn halogi unrhyw gynhwysydd/cynwysyddion gwastraff/ailgylchu yn barhaus, bydd Wardeniaid Gwastraff ac Ailgylchu yn ymweld â nhw i egluro ein gofynion cyn cymryd camau gorfodi. Ymdrinnir â'r drefn orfodi yn y Polisi Gorfodaeth sydd ddim yn rhan o'r polisïau a gynhwysir yn y ddogfen hon.

11.7 Mae'r holl bolisïau a gynhwysir yn y ddogfen hon yn cael eu hadolygu'n barhaus a gellir eu newid yn unol â hynny.

## ADRAN 12 - CEISIADAU, CANMOLIAETH, SYLWADAU NEU GWYNION AM Y GWASANAETH

12.1 Dylai deiliaid tai sy'n dymuno gwneud ceisiadau am wasanaeth:

- **ffonio** Adran Cefnogi'r Gwasanaeth ar (01685) 725000.

12.2 Dylai deiliaid tai sydd am fynegi canmoliaeth, sylwadau neu gwynion yn y lle cyntaf:

- **yrru e-bost naill i:** wasteservices@merthyr.gov.uk **neu** MTCBCcomplaints@merthyr.gov.uk
- **ysgrifennu at:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Adran Gwasanaethau Gwastraff, Uned 20, Parc Diwydiannol Merthyr, Pentre-bach, Merthyr Tudful, CF48 4DR. ,

**ATODIAD 1**

**MATHAU O WASTRAFF A WAHERDDIR**

Dyma’r mathau o wastraff na ellir mo’u cynnwys mewn whilfiniau cartrefi:

- Deunyddiau ailgylchadwy a ddylai fynd yn eich bocs ailgylchu gwyrdd 55 litr *
- Gwastraff gardd (rhaid rhoi hwn mewn sachau gwastraff gardd) *
- Gwastraff bwyd (rhaid rhoi hwn yn y cynhwysydd gwastraff bwyd glas 23 litr)
- Gwastraff masnachol
- Eitemau trydanol neu electronig *
- Batris cartref *
- Tecstilau *
- Gwastraff peryglus
- Hylifau gan gynnwys paent ac olew *
- Batris ceir a rhannau eraill o geir *
- Hylifau neu solidau ffrwydrol, cyrydol neu fflamadwy
- Rwbel *
- Cerrig *
- Pridd *
- Eitemau metel trwm, e.e. silindrau nwy, diffoddwyr tân, rhannau beic, rhannau peiriannau’r cartref *
- Anifeiliaid marw
- Gwastraff clinigol **

Nid yw’r uchod yn rhestr hollgynhwysfawr a gall newid, h.y. ehangu.

Gellir cael gwared ar yr holl eitemau sydd wedi’u marcio â * yn y Canolfannau Gwastraff Cartref ac Ailgylchu. Ar gyfer eitemau eraill, ffoniwch am gyngor. Gellir cynnwys ychydig o wastraff anifeiliaid ond rhaid ei roi mewn bagiau dwbl.

** Mae’r Awdurdod yn gweithredu gwasanaeth casglu ar wahân ar gyfer eitemau miniog a gwastraff dialysis. Os oes angen y gwasanaeth hwn arnoch, cewch eich cyfeirio at yr Awdurdod gan yr Ymddiriedolaeth GIG.

Os oes unrhyw fin yn rhy drwm i’w godi gan y cerbyd, caiff y bin ei adael yn y man lle cafodd ei gyflwyno gydag arwydd yn esbonio pam na chafodd y whilfin ei wagio.

**ATODIAD 2**

**DEUNYDDIAU A DDERBYNNIR MEWN CYNWYSYDDION AILGYLCHU**

| CYNHWYSYDD | DEUNYDD | GOFYNION |
|---|---|---|
| Sach glas amldro | Poteli plastig<br>Cynwysyddion bwyd plastig<br>Tuniau bwyd<br>Pynets<br>Hambyrddau cludfwyd (hambyrddau prydau parod)<br>Tuniau melysion/bisgedi<br>Hambyrddau pastai<br>Caniau diod<br>Erosolau (gwag)<br>Ffoil | Mae angen rinsio'r eitemau a'u gwasgu os yn bosibl |
| Bocs ailgylchu 1 | Papur<br>Papurau newydd<br>Cylchgronau<br>Cyfeiriaduron ffôn<br>Catalogau<br>Post sothach<br>Llythyrau<br>Taflenni<br>Amlenni | Cadwch y papur yn sych a gwaredwch unrhyw ddeunydd lapio plastig |
| Bocs ailgylchu 2 | Cardbord (bocsys grawnfwyd, bocsys wyau, tiwbiau papur cegin a thoiled, cerdyn rhychiog)<br>Tetra Pak (pob carton, e.e. llaeth, sudd ffrwythau, cyflyrydd ffabrig, sŵp, cwstard, sudd tomato)<br>Papur brown | Fflatiwch y cardbord a'r tiwbiau a thynnwch y deunyddiau pacio mewnol o focsys<br>Dylid rinsio pob carton |
| Bocs ailgylchu 3 | Poteli gwydr<br>Jariau gwydr | Mae angen eu rinsio |
| Bocs troli - top | Papur<br>Papurau newydd<br>Cylchgronau<br>Cyfeiriaduron ffôn<br>Catalogau<br>Post sothach<br>Llythyrau<br>Taflenni<br>Amlenni | Cadwch y papur yn sych a gwaredwch unrhyw ddeunydd lapio plastig |
| Bocs troli - canol | Cardbord (bocsys grawnfwyd, bocsys wyau, tiwbiau papur cegin a thoiled, cerdyn rhychiog)<br>Tetra Pak (pob carton, e.e. llaeth, sudd ffrwythau, cyflyrydd ffabrig, sŵp, cwstard, sudd tomato)<br>Papur brown | Fflatiwch y cardbord a'r tiwbiau a thynnwch y deunyddiau pacio mewnol o focsys<br>Dylid rinsio pob carton |
| Bocs troli - gwaelod | Poteli gwydr<br>Jariau gwydr | Mae angen eu rinsio |

**Eitemau a gasglwyd ar wahân**

| Cynhwysydd | Deunydd | Gofynion |
|---|---|---|
| Bag gwyn neu glir (ni ddarperir bag) | Eitemau trydanol bach | Gosodwch nhw ar ben neu wrth ymyl y cynwysyddion ailgylchu<br>Ni ddylid eu rhoi allan mewn bag du |
| Bag batri porffor (ar gael o safleoedd yn Atodiad 3) | Batris Cartref | Llenwch y bag gymaint â phosibl, ei selio a'i roi ar ben y cynhwysydd ailgylchu i'w gasglu |
| Bag gwyn neu glir (ni ddarperir bag) | Tecstilau | Gosodwch nhw ar ben neu wrth ymyl cynwysyddion ailgylchu<br>Dillad glân, sych, tecstilau ac esgidiau yn unig<br>Ni ddylid eu rhoi allan mewn bag elusen neu fag du |

Nid yw'r Rhestr hon yn hollgynhwysfawr a gellir ei diweddaru.

**ATODIAD 3**

**LLEOLIADAU SY'N GWERTHU/DARPARU LEININ CADIS YN RHAD AC AM DDIM**

Gallwch brynu leininau/bagiau a wneir o startsh compostadwy am bris cymorthdaliedig neu eu cael yn rhad ac am ddim o'r lleoliadau canlynol:

- **Y Ganolfan Ddinesig** - Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
- **Uned 5** - Parc Busnes y Triongl, Pentre-bach, Merthyr Tudful, CF48 4TQ
- **Uned 20** - Parc Diwydiannol Merthyr Tudful, Pentre-bach, Merthyr Tudful, CF48 4DR
- **Llyfrgell Dowlais** - Stryd yr Eglwys, Dowlais, Merthyr Tudful, CF48 3HS
- **Llyfrgell Treharris** - Stryd Perrott, Treharris, CF46 5ET
- **Ymddiriedolaeth Ddatblygu 3G** - 15 Ffordd Castan, Merthyr Tudful, CF47 9SB
- **Bywyd Newydd** - Uned 20, Parc Diwydiannol Merthyr Tudful, Pentre-bach, Merthyr Tudful, CF48 4DR
- **CGCA Aber-fan** - Canolfan Gwastraff Cartref ac Ailgylchu, Heol Aber-fan, Aber-fan, Merthyr Tudful, CF48 4QE
- **CGCA Dowlais** - Canolfan Gwastraff Cartref ac Ailgylchu, Y Bont, Hen Heol Gellifaelog, Dowlais, Merthyr Tudfil, CF48 3DA

## ATODIAD 4

### DEUNYDDIAU A DDERBYNNIR MEWN CYNWYSYDDION GWASTRAFF BWYD GLAS

Gellir cyflwyno pob math o fwydydd wedi'u coginio a heb eu coginio gan gynnwys esgyrn, i'w casglu yn y cynhwysydd gwastraff bwyd glas.

Mae'r rhestr isod yn amlygu enghreifftiau nodweddiadol o wastraff bwyd derbyniol ond nid yw'n hollgynhwysfawr:

- Cig
- Bagiau te
- Pysgod
- Esgyrn
- Cregyn wyau
- Ffrwythau
- Llysiau
- Pilion
- Tywelion papur cegin

### DEUNYDDIAU NA DDERBYNNIR MEWN CYNWYSYDDION GWASTRAFF BWYD GLAS

- Dim eitemau o Atodiad 1 ac eithrio gwastraff bwyd
- Dim eitemau o Atodiad 2
- Dim eitemau o Atodiad 5

## ATODIAD 5

### DEUNYDDIAU A DDERBYNNIR MEWN SACH GWASTRAFF AR YMYL Y FFORDD

Blodau
Planhigion
Chwyn
Toriadau gwair
Llwyni
Torion cloddiau
Canghennau bach wedi'u torri'n ddarnau bach

(Y meintiau uchaf ar gyfer casgliadau ymyl-y-ffordd - cyfwerth â 10 sach)

**ATODIAD 6**

**DEUNYDDIAU NA DDERBYNNIR MEWN SACH GWASTRAFF AR YMYL Y FFORDD**

Canghennau mawr
Gwastraff bwyd
Gwastraff anifeiliaid
Gwastraff cartref
Cerrig, rwbel neu frics
Priddoedd neu dyweirch
Pren wedi'i drin
Potiau planhigion/hambyrddau hadau/basgedi crog
Plaleiddiaid/chwynladdwyr
Chwyn ymledol, e.e. Canclwm Japan, Efwr a Llysiau'r Gingroen
Unrhyw fathau o wastraff a waherddir rhag defnyddio whilfiniau a chynwysyddion ailgylchu a bwyd y cartref, ac eithrio'r rhai a grybwyllir yn Atodiad 5.

Ni fydd bagiau/deunyddiau sy'n pwyso mwy na 25 kg yn cael eu casglu trwy'r gwasanaeth ymyl-y-ffordd.

**ATODIAD 7**

**CAIS AM GASGLIADAU Â CHYMORTH**

**Judith Jones**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdogaeth
Director of Neighbourhood Services

Uned 20, Parc Diwydiannol Merthyr Tudful,
Pentre-bach, Merthyr Tudful, CF48 4DR
Unit 20, Merthyr Tydfil Industrial Park,
Pentrebach, Merthyr Tydfil, CF48 4DR
Ffôn/Tel: **(01685) 725000**
**www.merthyr.gov.uk**
Croesawn alwadau yn y Gymraeg
We welcome calls in Welsh

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Deiliad y Tŷ

| | | |
|---|---|---|
| ***Ein Cyfl***Our Ref: | ***Gofynnwch am***/Please ask for**:** | (01685) 725000 |
| ***Eich Cyfl***Your Ref: | ***LlinellUniongyrchol***/Direct Line**:** | Gwasanaethau Gwastraff/ Waste Services |
| ***Dyddiad***/Date: | ***e-bost***/e-mail**:** | Wasteservices@merthyr.gov.uk |

Annwyl Ddeiliad y Tŷ

**PAR: Cais am Gasgliadau â Chymorth**

Yn unol â'ch cais, amgaeir y ffurflen gais am gasgliadau â chymorth. A fyddech cystal â'i chwblhau a'i dychwelyd o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y llythyr hwn.

Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch i gwblhau'r ffurflen, mae croeso i chi gysylltu â'r swyddfa hon ar 01685 725000.

Yn gywir

**Ar gyfer ac ar ran**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdogaeth**

Merthyr Tudful
... lle i fod yn falch ohono

Merthyr Tydfil
... a place to be proud of

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg ac ni fydd hynny'n arwain at oedi. Nodwch os hoffech dderbyn eich gohebiaeth yn Gymraeg ynteu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

Rhif Cyf:

**CAIS I GAEL CASGLIADAU Â CHYMORTH AR GYFER WHILFIN SBWRIEL A CHYNWYSYDDION AILGYLCHU**

**DS: Rhaid dychwelyd y cais gorffenedig i Adran Gwasanaethau Gwastraff CBSMT o fewn 14 diwrnod i'r llythyr amgaeedig.**

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i Swyddogion drefnu ymweliad ar gyfer cadarnhau eich cais.
Os ydych chi'n teimlo bod eich asesiad wedi'i wneud yn annheg, mae gan y Cyngor system gwyno ar waith, a gallwch ei defnyddio i ymchwilio i unrhyw fater.

Mr/Miss/Ms/Mrs: ........................................................................................

Enw(au) Cyntaf: ........................................................................................

Cyfenw: ......................................................................................................

Cyfeiriad: ..…………………………………………………………………….

Rhif Ffôn Cyswllt: ............................ Rhif Ffôn Symudol: ............................

Cyfeiriad E-bost: ........................................................................................

Gallaf gadarnhau nad oes modd imi osod fy nghynhwysyddion sbwriel ac ailgylchu yn y man casglu gofynnol.

Cytunaf i hysbysu'r Awdurdod ar unwaith os bydd fy amgylchiadau'n newid fel nad oes angen y gwasanaeth casglu â chymorth arnaf mwyach.

Deallaf fod yr Awdurdod yn cadw'r hawl i dynnu'r eiddo uchod oddi ar ei Restr Casgliadau â Chymorth os bydd fy amgylchiadau'n newid a/neu os canfyddir bod unrhyw oedolyn sy'n byw yn yr eiddo yn gallu mynd â'r cynwysyddion sbwriel ac ailgylchu i'r man casglu gofynnol ar fy rhan.

Rhif Cyf:

**Rhestrwch bawb sy'n byw yn eich cartref:**

| Enw | Dyddiad Geni |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

**Ticiwch y blychau sy'n berthnasol:**

| | ✓ | × |
|---|---|---|
| Dwi angen help gyda fy whilfin a chynwysyddion ailgylchu | | |
| A oes gennych unrhyw berthnasau a allai'ch helpu chi gyda hyn? | | |
| A oes gennych unrhyw gymdogion a allai'ch helpu chi gyda hyn? | | |
| Oes gennych chi ofalwr a allai'ch helpu chi gyda hyn? | | |

**Gofynnaf am help parhaol oherwydd:**

| | ✓ | × |
|---|---|---|
| Mae gen i fathodyn glas sy'n rhoi'r hawl i mi gael consesiynau parcio | | |
| Rwy'n derbyn Elfen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl | | |
| Rwy'n derbyn Elfen Ofal y Lwfans Byw i'r Anabl ar y Gyfradd Uwch | | |
| Rwyf wedi fy nghofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall | | |
| Nid oes unrhyw berson nad yw'n anabl yn byw yn fy nghartref | | |

**DIOGELU DATA**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi ymrwymo i gynnal eich hawliau preifatrwydd. Dim ond at ddibenion cyfreithlon y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Os hoffech gael gwybod mwy am y ffordd yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol, darllenwch ein hysbysiadau preifatrwydd sydd ar gael ar ein gwefan (https://www.merthyr.gov.uk/council/data-protection-and-freedom-of-information/privacy-notices/). Os oes gennych unrhyw bryderon neu os hoffech wybod mwy am gydymffurfio â diogelu data, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data ar 01685 725000 neu data.protection@merthyr.gov.uk

A all Gweithiwr Cymdeithasol/Meddygol/Gofal Proffesiynol gadarnhau bod y wybodaeth uchod yn gywir?

Gallaf gadarnhau bod y wybodaeth uchod yn gywir.

Llofnod: ________________________________________________

Llythrennau Bras: ________________________________________

Dyddiad: _______________________________________________

Rhif Cyf:

Rwyf i, yr ymgeisydd, yn cadarnhau bod y wybodaeth a ddarparwyd gennyf yn wir ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Llofnod: ________________________________________

Dyddiad: _______________________________________

Llofnod: ________________________________________
Swyddog Ymweld CBSMT

Dyddiad: ________________________________________

Diolch am lenwi'r Ffurflen Gais am Gasgliad â Chymorth. Byddwn yn cysylltu â chi o fewn 7 diwrnod gwaith i roi gwybod a yw'ch cais wedi bod yn llwyddiannus ac, os yw'n berthnasol, i drefnu ymweliad i wirio'ch gwybodaeth ategol.

Dychwelwch at:
Adran Gwasanaethau Gwastraff
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

**ATODIAD 8**

**CAIS AM GYNYDDU CAPASITI WHILFIN Y CARTREF**

Uned 20, Parc Diwydiannol Merthyr Tudful,
Pentre-bach, Merthyr Tudful, CF48 4DR

Unit 20, Merthyr Tydfil Industrial Park,
Pentrebach, Merthyr Tydfil, CF48 4DR

Ffôn/Tel: **(01685) 725000**
**www.merthyr.gov.uk**
Croesawn alwadau yn y Gymraeg
We welcome calls in Welsh

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

**Judith Jones**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdogaeth
Director of Neighbourhood Services

Deiliad y Tŷ

| | | | |
|---|---|---|---|
| ***Ein Cyf*/Our Ref:** | ***Gofynnwch am*/Please ask for:** | (01685) 725000 | |
| ***Eich Cyf*/Your Ref:** | ***LlinellUniongyrchol*/Direct Line:** | Gwasanaethau Gwastraff/ Waste Services | |
| ***Dyddiad*/Date:** | ***e-bost*/e-mail:** | Wasteservices@merthyr.gov.uk | |

Annwyl Ddeiliad y Tŷ

**PAR: CAIS AM GYNYDDU CAPASITI WHILFIN Y CARTREF**

Amgaeaf er eich sylw y Ffurflen Gais am Gynyddu Capasiti Whilfin y Cartref.

Mae’n rhaid i mi eich hysbysu, os yw’ch aelwyd yn cynnwys llai na 6 o breswylwyr parhaol heb unrhyw amgylchiadau arbennig, bydd eich cais yn cael ei wrthod. Os ydych yn teimlo bod eich aelwyd yn cynhyrchu mwy o wastraff nag y gellir ei ailgylchu a’i gynnwys mewn bin 140 litr, efallai y byddwch yn gymwys i gael bin mwy o faint.

Os teimlwch eich bod yn bodloni’r meini prawf hyn, cwblhewch a dychwelwch y ffurflen i:

Adran Gwasanaethau Gwastraff, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN.

Ar ôl derbyn y ffurflen gais, bydd Warden Gwastraff ac Ailgylchu yn asesu ac yn cynnal archwiliad o’ch whilfin. Unwaith y bydd yr archwiliad wedi’i gwblhau, bydd llythyr yn cael ei anfon atoch yn nodi a oes gennych hawl i whilfin mwy o faint ai peidio.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â’r cais neu unrhyw faterion eraill yn ymwneud â gwastraff ac ailgylchu, mae croeso ichi ffonio 01685 725000 neu yrru e-bost at wasteservices@merthyr.gov.uk.

Yn gywir

**Ar gyfer ac ar ran**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdogaeth**

CAIS AM GYNYDDU CAPASITI WHILFIN Y CARTREF

Eich Manylion: Rhif Cyf:

***Mr/Miss/Ms/Mrs:*** **......................................................................................................................**
***Enw(au) Cyntaf:*** **......................................................................................................................**
***Cyfenw*****: ..........................................................................................................................**
***Cyfeiriad*****: ......................................................................................................................**
**..................................................................................................................................**
**..................................................................................................................................**
***Cod Post*****: ......................................................................................................................**
***Rhif Ffôn Cyswllt*****: .......................................** ***Rhif Ffôn Symudol*****: ........................................**
***Cyfeiriad E-bost*****: ..............................................................................................................**

Ffactorau a fydd yn cael eu hystyried wrth asesu eich cais:

Rhestrwch bawb sy'n byw yn yr eiddo (ac eithrio myfyrwyr sy'n byw ymaith). Os yw amgylchiadau arbennig yn berthnasol, nodwch hynny yn y golofn "Manylion":

| *Enw* | *Dyddiad Geni* | *Oedran Cyfredol* | *Manylion* |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Os oes gennych chi anifeiliaid anwes, rhestrwch beth ydyn nhw, eu nifer a'ch dull o gael gwared ar eu gwastraff:

| *Anifail Anwes (cath/ci/cnofil/aderyn/ymlusgiad)* | *Nifer* | *Lle rhoddir y gwastraff* |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

Atebwch y cwestiynau canlynol os gwelwch yn dda:

Nodwch yn glir eich rhesymau dros wneud cais am gapasiti whilfin ychwanegol:
…………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

A ydych chi'n defnyddio'r bocs/bocsys ailgylchu ymyl-y-ffordd/sach glas amldro i ailgylchu eich holl wydr (poteli a jariau), caniau (bwyd, diod ac aerosolau), plastig (poteli, tybiau, potiau a hambyrddau), papur, cardbord a chartonau Tetra Pak, eitemau trydanol bach, tecstilau a batris? (Rhowch gylch)

Ydw Nac ydw

A ydych chi'n defnyddio sachau gwastraff gardd? (Rhowch gylch)

Ydw Nac ydw

A ydych chi'n defnyddio'ch Canolfan Gwastraff Cartref ac Ailgylchu leol i ailgylchu pecynnau mwy neu ailgylchu gormodol? (Rhowch gylch) **DS Ni dderbynnir unrhyw wastraff bagiau du heb ei ddidoli yn y Ganolfan hon.**

Ydw Nac ydw

Nodwch unrhyw ffyrdd eraill yr ydych yn ailgylchu neu'n lleihau'ch gwastraff os yn berthnasol:

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

Nodwch sawl bag o wastraff a osodir gennych ar yr ochr bob wythnos:

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

Cadarnhewch y ffordd yr ydych yn cael gwared ar y gwastraff ychwanegol hwn ar hyn o bryd:

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

A oes gennych chi fynediad i gludiant? (Rhowch gylch)

Oes Nac oes

DATGANIAD

Cadarnhaf ein bod yn gwneud defnydd llawn o'r gwasanaethau ar gyfer casglu deunyddiau ailgylchu wrth ymyl y ffordd, gan gynnwys gwastraff bwyd a, lle bo modd, rydym yn defnyddio cyfleusterau eraill i ailgylchu deunyddiau ychwanegol. Rydym hefyd wedi ceisio lleihau ein

gwastraff. Er gwaethaf hynny, nid yw whilfin 140 litr yn cynnig digon o gapasiti i gynnwys y sbwriel gweddilliol a gynhyrchir gan breswylwyr parhaol y cartref hwn ar gyfer y casgliadau a wneir bob pythefnos.

Rwy'n cadarnhau bod yr holl wybodaeth yn y cais hwn yn gywir ac rwy'n deall y gallwch wneud ymholiadau pellach yn ôl yr angen.

DIOGELU DATA

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi ymrwymo i gynnal eich hawliau preifatrwydd. Dim ond at ddibenion cyfreithlon y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Os hoffech gael gwybod mwy am y ffordd yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol, darllenwch ein hysbysiadau preifatrwydd sydd ar gael ar ein gwefan (https://www.merthyr.gov.uk/council/data-protection-and-freedom-of-information/privacy-notices/). Os oes gennych unrhyw bryderon neu os hoffech wybod mwy am gydymffurfio â diogelu data, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data ar 01685 725000 neu data.protection@merthyr.gov.uk

Gallaf gadarnhau hyd eithaf fy ngwybodaeth fod y datganiad uchod yn wir ac yn gywir.

Llofnod ______________________

Dyddiad ______________________

Telerau ac Amodau ar gyfer Whilfin â Chapasiti Ychwanegol

1. Mae'r bin yn parhau i fod yn eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
2. Mae'r defnydd o gapasiti whilfiniau ychwanegol yn rhad ac am ddim. Mae hyn yn rhoi'r hawl i chi ddefnyddio'r bin â chapasiti ychwanegol cyhyd â'ch bod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y Polisi.
3. Os bydd yr amgylchiadau uchod yn newid ar unrhyw adeg (e.e. os bydd nifer y preswylwyr parhaol yn newid), byddwch yn hysbysu Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i asesu'ch anghenion newydd mewn perthynas â'ch cynhwysedd gwastraff.
4. Os byddwch yn symud tŷ o fewn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, rhaid i chi hysbysu'r Cyngor o'ch cyfeiriad newydd fel bod y bin sbwriel 240 litr yn cael ei ddisodli ag un o faint safonol yn yr hen eiddo a'i symud i'ch eiddo newydd (yn dibynnu ar ganlyniadau asesiad).
5. Os byddwch yn symud i dŷ y tu allan i ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, rhaid i chi roi gwybod i'r Cyngor a threfnu bod eich bin sbwriel 240 litr yn cael ei ddisodli gan un o faint safonol.
6. Darperir y bin â chapasiti ychwanegol ar yr amod ei fod yn cael ei ddefnyddio'n unig ar gyfer gwastraff cartref na ellir mo'i ailgylchu na'i gompostio.
7. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cadw'r hawl i gynnal gwiriadau ar hap i sicrhau mai dim ond gwastraff cartref na ellir mo'i ailgylchu na'i gompostio a gyflwynir i'w gasglu. Gellir tynnu'r capasiti ychwanegol yn ôl os caiff ei gamddefnyddio.
8. Codir tâl danfon a gweinyddu o £15.81 (yn agored i newid) ar gyfer darparu'r bin capasiti ychwanegol, i'w dalu cyn ei ddosbarthu. Unwaith na fydd angen y bin hwn arnoch mwyach, caiff bin safonol 140 litr ei ddarparu ar eich cyfer am ddim.

Dychwelwch i: Adran Gwasanaethau Gwastraff, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful,
Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

**ATODIAD 9**

**DYDDIADUR GWASTRAFF**

- Marciwch bob eitem o sbwriel a rowch yn eich whilfin llwyd ar gyfer wythnos (1), (2), (3) neu (4) (i'w gytuno rhwng y Warden Gwastraff ac Ailgylchu a Deiliad Cyfrifol y Tŷ).
- Byddwch yn gallu gweld pa eitemau rydych yn eu taflu fwyaf. Targedwch y rhain yn gyntaf i leihau eich sbwriel.
- Edrychwch ar faint o sbwriel yr ydych yn ei roi yn eich whilfin llwyd a cheisiwch ei leihau.

| **WYTHNOS YN DECHRAU:** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o Wastraff** | **Llun** | **Mawrth** | **Mercher** | **Iau** | **Gwener** | **Sadwrn** | **Sul** |
| Papurau Newydd/ Cylchgronau | | | | | | | |
| Cardbord | | | | | | | |
| Poteli a Jariau Gwydr | | | | | | | |
| Caniau Bwyd a Diod | | | | | | | |
| Ffoil | | | | | | | |
| Poteli Plastig | | | | | | | |
| Plastigau Eraill, e.e. potiau iogwrt, tybiau menyn/ marjarîn, hambyrddau bwyd | | | | | | | |
| Tetra Pak, e.e. cartonau sudd | | | | | | | |
| Aerosolau, e.e. chwistrellau gwallt, diaroglyddion, polish | | | | | | | |
| Tecstilau ac esgidiau | | | | | | | |
| Polystyren | | | | | | | |
| Bwyd | | | | | | | |
| Cewynnau | | | | | | | |
| Gwastraff anymataliaeth | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwastraff Gardd | | | | | | | |
| Gwydr Arall, e.e. bylbiau golau, Pyrex | | | | | | | |
| Teganau, llyfrau, fideos, cryno ddisgiau (gellir rhoi'r rhain i elusen) | | | | | | | |
| Arall, e.e. ffilm blastig, batris trydanol a batris y tŷ | | | | | | | |

**ATODIAD 10**

**GWASANAETH CASGLU GWASTRAFF SWMPUS**

Gellir defnyddio'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus i gasglu unrhyw eitem o wastraff sy'n pwyso mwy na 25 kg, neu unrhyw eitem o wastraff nad yw'n ffitio neu na ellir ei ffitio mewn cynhwysydd ar gyfer gwastraff cartref a ddarperir yn unol ag adran 4 o Reoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012. Gall unrhyw eitemau yr ystyrir eu bod mewn cyflwr digon da gael eu hailddefnyddio yn y Siop Ailgylchu "Bywyd Newydd". Rhestrir tabl gydag enghreifftiau o eitemau gwastraff swmpus isod:

| |
|---|
| Eitemau Trydanol Mawr |
| Dodrefn |
| Barbeciws |
| Beiciau |
| Carpedi a Deunyddiau Llawr |
| Teganau Plant |

Enghreifftiau o eitemau nad ydynt yn cael eu casglu o gartrefi trwy'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus:

| |
|---|
| Gwastraff Peryglus (ac eithrio eitemau a restrir o dan eitemau trydanol) |
| Rwbel Adeiladwyr |
| Gwastraff Bagiau Du |

**DS  Nid yw’r rhestrau uchod yn hollgynhwysfawr a gallant newid**

Sylwch fod yn rhaid i bob eitem, ac eithrio’r rhai a ystyrir yn addas i’w hailddefnyddio, gael eu gosod wrth ymyl y ffordd i’w casglu. Ni fydd y staff casglu yn mynd i mewn i unrhyw eiddo heb gytundeb ymlaen llaw.

Darperir cymorth ddim ond os bydd cais amdano wedi’i drefnu ymlaen llaw.

Os bydd y staff casglu yn galw i’r eiddo i gasglu eitemau nad ydynt ar gael wrth iddynt gyrraedd, bydd y tâl casglu yn parhau’n berthnasol.

**ATODIAD 11**

**GWEITHDREFN CODI TÂL AM WASANAETH CASGLU GWASTRAFF SWMPUS**

Codir tâl ar gyfer y gwasanaeth hwn am hyd at 3 eitem cartref heb unrhyw gonsesiynau ac fe'i trefnir trwy system fwcio. Rhaid talu cyn y gellir trefnu unrhyw gasgliad.

Os bydd deiliad y tŷ yn canslo'r casgliad, rhoddir ad-daliad llawn.

Ar gyfer meintiau mwy/eitemau sy'n gofyn am amser llwytho gormodol, bydd angen i'r Goruchwyliwr ymweld a chynnig pris. Bydd cost ychwanegol am y canlynol:

| **Eitemau i'r Goruchwylwyr eu hasesu cyn cytuno i'w casglu** |
|---|
| Pianos (rhaid eu bod wedi'u datgymalu) |
| Tai gwydr |
| Cypyrddau ffeilio |

**DS Nid yw hon yn rhestr gyflawn a gall newid.**

Ni chytunir ar unrhyw gasgliad annormal hyd nes bod y Goruchwylydd wedi cynnal asesiad.

Ar gyfer eitemau masnachol, fe godir isafswm tâl y cytunir arno adeg yr archwiliad.

**ATODIAD 12**

**MANYLEB GWASTRAFF GARDD SWMPUS**

Codir tâl am y gwasanaeth hwn fesul llwyth lori ac fe'i trefnir trwy system fwcio. Rhaid talu cyn y gellir trefnu unrhyw gasgliad.

Os bydd deiliad y tŷ yn canslo'r casgliad, rhoddir ad-daliad llawn.

Mae'r maen prawf canlynol yn berthnasol i bob cais gan ddeiliaid tai am geisiadau ar gyfer y Gwasanaeth Gwastraff Gardd Swmpus.

Gwastraff gardd i'w dderbyn ar gyfer casgliad swmpus yw:

Canghennau mawr wedi'u torri'n ddarnau hylaw a'u bwndelu, h.y. 1.5 metr ar y mwyaf, pob hyd/bwndel yn pwyso dim mwy na 25 kg
Coed wedi'u torri'n ddarnau hylaw, h.y. 1.5 metr ar y mwyaf, pob hyd yn pwyso dim mwy na 25 kg
Dail mewn Bagiau – lleiafswm o 6 bag du, uchafswm o 20 bag du
Toriadau Gwrych mewn Bagiau – lleiafswm o 6 bag du, uchafswm o 20 bag du
Toriadau Gwair mewn Bagiau – lleiafswm o 6 bag du, uchafswm o 20 bag du

Gwastraff na chaiff ei dderbyn ar gyfer casgliad swmpus yw:

Gwastraff bwyd
Gwastraff anifeiliaid
Gwastraff cartref
Cerrig, rwbel neu frics
Priddoedd neu dyweirch
Pren wedi'i drin
Chwyn ymledol, e.e. Canclwm Japan, Efwr a Llysiau'r Gingroen

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a gellir ei diweddaru.

**Atodiad 13**

**RHESTR O GWESTIYNAU**

Mae'r canlynol yn rhestr o gwestiynau y mae Staff Cymorth y Gwasanaeth yn eu gofyn i ddeiliad y tŷ sy'n gwneud cais am Wasanaeth Gwastraff Gardd Swmpus:

1. Pa fath o wastraff sydd i'w gasglu?
2. Pa faint sydd i'w gasglu?
3. A yw'n cael ei dorri i hydau hylaw?
4. A yw pob hyd yn pwyso llai na 25 kg?
5. A yw'r canghennau llai wedi'u bwndelu ac a yw'r glaswellt/toriadau wedi'u bagio?
6. A yw'r gwastraff mewn lleoliad hygyrch? Hynny yw, dylid ei osod ar ffin flaen neu gefn yr eiddo ac ni ddylid ei adael o fewn cwrtil yr ardd.
7. A yw'n rhydd o halogiad neu ddeunyddiau eraill?
8. Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y person?
9. A fydd rhywun yn yr eiddo?